UK Government

# Ein gweledigaeth ar gyfer sector milfeddygol ffyniannus

Gorffennaf 2026

CP 1615

E03636453

978-1-5286-6306-9

E03636453_Our vision for a thriving veterinary sector_WELSH_COVER.indd A4 V

06/07/2026 10:55

Government of the United Kingdom

# Ein gweledigaeth ar gyfer sector milfeddygol ffyniannus

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar Orchymyn Ei Fawrhydi

Gorffennaf 2026

## Yn cynnwys ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad diweddar ar ddiwygio Deddf y Milfeddygon, ac i Ymchwiliad i'r Farchnad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i wasanaethau milfeddygol ar gyfer anifeiliaid anwes

CP 1615

Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd. Ein nod yw tyfu economi werdd a chynnal cymunedau gwledig ffyniannus. Rydym hefyd yn cefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota sy'n arwain y byd.

Mae Defra yn adran weinidogol, a gefnogir gan 34 o asiantaethau a chyrff cyhoeddus.

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch iwww.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/defra

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn vsa-reform@defra.gov.uk

ISBN 978-1-5286-6306-9

E03636453 07/26

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

## Cynnwys


Rhagair y Gweinidog .... i

Rhagair y Prif Swyddogion Milfeddygol (CVOs) .... iii

Crynodeb gweithredol .... v

Yr angen am ddiwygio deddfwriaethol .... 1

Gweledigaeth ar gyfer y sector milfeddygol .... 3

Rheoleiddio gweithwyr milfeddygol proffesiynol .... 5

Rheoleiddio busnesau milfeddygol neu ofal iechyd anifeiliaid .... 20

Cymorth i ddefnyddwyr .... 29

Llywodraethiant .... 33

Y camau nesaf .... 44

# Rhagair y Gweinidog



**Y Farwnes Hayman o Ullock,**

**Gweinidog dros Les Anifeiliaid a Bioddiogelwch**

Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod gennym sector milfeddygol ffyniannus. Un sy'n cefnogi'n briodol y gweithwyr proffesiynol sy'n ymroi eu bywydau i ofalu am anifeiliaid ac yn cynnal y safonau uchaf o ran lles anifeiliaid. Dylai hefyd ddiogelu defnyddwyr, a chefnogi economi gref sy'n tyfu yn llawn. Rwyf wedi gweld â'm llygaid fy hun broffesiynoldeb, sgil ac ymrwymiad y rhai sy'n gweithio ar draws y maes milfeddygol. Rwy'n credu eu bod yn haeddu fframwaith sy'n cydnabod eu cyfraniad ac yn eu helpu i ffynnu.

Mae gweithwyr milfeddygol proffesiynol yn chwarae rhan hanfodol yn ein cymdeithas. Maent yn gofalu am anifeiliaid anwes annwyl, yn diogelu da byw a diogelwch bwyd, yn diogelu iechyd y cyhoedd a bioddiogelwch ac yn galluogi masnach ryngwladol. Mae eu gwaith yn cyffwrdd â bywydau pob un ohonom. Er mwyn parhau i gyflawni'r cyfraniad hanfodol hwn, mae angen system reoleiddio fodern, deg ac effeithiol arnynt sy'n adlewyrchu realiti ymarfer milfeddygol heddiw ac yn cefnogi gweithlu cynaliadwy. Nid yw hyn yn gyraeddadwy o dan y Ddeddf Milfeddygon 1966 (VSA) bresennol. Ar ôl ystyried yn ofalus bob un o'r 6,219 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r VSA, mae'n amlwg bod llawer ohonoch o'r un farn.

Mae fframwaith rheoleiddio cryf a chymesur hefyd yn ganolog i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd. Mae'n helpu i sicrhau bod lles anifeiliaid bob amser yn cael blaenoriaeth a bod defnyddwyr yn gallu bod yn hyderus yn y gwasanaethau milfeddygol y maent yn dibynnu arnynt. Ar yr un pryd, rhaid i reoleiddio ganiatáu i fusnesau arloesi, cystadlu'n deg, a thyfu. Rhaid iddo gefnogi sector sy'n wydn, yn edrych ymlaen, ac yn ymatebol i newid.

Mae cael hyn yn iawn yn bwysig.

Rydym am alluogi sector milfeddygol sy'n cael ei reoleiddio'n dda, sy'n gynaliadwy, ac sy'n ddibynadwy. Yna gallwn gefnogi'r gweithwyr proffesiynol sydd wrth wraidd y gwaith, parhau i gyflawni canlyniadau cryf i anifeiliaid a'u perchnogion, a datgloi manteision economaidd ehangach. Nid yw'n ymwneud â diwygio deddfwriaeth yn unig. Mae'n ymwneud â chefnogi sector sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ac i'r wlad gyfan.

Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd yr amser i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Mae eich cyfraniadau wedi bod yn amhrisiadwy wrth lunio ein dealltwriaeth a llywio'r cam nesaf o ddatblygu polisi.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) am ei ymchwiliad i'r farchnad i wasanaethau milfeddygol ar gyfer anifeiliaid anwes. Mae ei ganfyddiadau a'i argymhellion yn atgyfnerthu'r achos dros ddiwygio ac yn ategu'r gwaith a nodir yma.

Rwyf hefyd yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, A sustainable veterinary workforce, a gyhoeddwyd ar 3 Mehefin 2026. Bydd y Llywodraeth yn ymateb i hyn maes o law.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu camau nesaf y llywodraeth i gefnogi sector milfeddygol modern, ffyniannus drwy ddiwygio'r VSA. Bydd y diwygiadau hyn yn cyfrannu at genhadaeth y llywodraeth hon i ailadeiladu Prydain. Bydd Deddf newydd, a gyflwynir pan fydd amser Seneddol yn caniatáu, yn sicrhau bod pob gweithiwr milfeddygol proffesiynol a busnes sy'n darparu gwasanaethau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid yn gweithredu o fewn fframwaith rheoleiddio cadarn a chymesur. Bydd hyn yn cryfhau lles anifeiliaid ac yn cynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn gwasanaethau milfeddygol. Drwy fynd i'r afael â phryderon cystadleuaeth a nodwyd gan y CMA, bydd hefyd yn helpu i gefnogi arloesedd, dewis a thwf economaidd.



**Y Farwnes Hayman o Ullock, Gweinidog dros Les Anifeiliaid a Bioddiogelwch**

# Rhagair y Prif Swyddogion Milfeddygol (CVOs)

Fel Prif Swyddogion Milfeddygol y DU, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, ac arweinwyr Gwasanaethau Milfeddygol y Llywodraeth (GVS), rydym yn aelodau balch o'r proffesiwn milfeddygol. Rydym yn cydnabod pa mor hanfodol yw cefnogi'r sector milfeddygol, a gweithwyr proffesiynol ynddo, i ffynnu.

Mae ein sector wedi esblygu'n sylweddol dros gyfnod ein gyrfaoedd a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae datblygiadau mewn dealltwriaeth wyddonol a thechnoleg yn galluogi gweithwyr milfeddygol proffesiynol i ddarparu gofal cynhwysfawr ac integredig. Bydd hyn yn parhau i esblygu gyda datblygiadau newydd yn y dyfodol.

Rydym hefyd wedi gweld symud i ffwrdd o'r practisau milfeddygol traddodiadol sy'n eiddo i filfeddygon ac yn cael eu rhedeg ganddynt. Mae cwmnïau mawr bellach yn berchen ar fwy o bractisau ac yn eu rheoli. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'n hanfodol bod deddfwriaeth yn esblygu hefyd. Yna gallwn ddarparu'r gofal milfeddygol gorau tra hefyd yn diogelu a chefnogi defnyddwyr.

Bydd cyflwyno deddfwriaeth newydd yn cynrychioli newid sylweddol i lawer o weithwyr milfeddygol proffesiynol. Mae'n newid yn sylfaenol sut rydym ni fel unigolion, a'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw ac yn gweithio iddyn nhw, yn cael ein rheoleiddio a'n dwyn i gyfrif. Gall newid fod yn frawychus, ond credwn y gall newid wella tryloywder ac atebolrwydd. Rydym hefyd yn credu y bydd newid yn gwella cefnogaeth i:

- y gweithwyr milfeddygol proffesiynol
- busnesau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid
- y cyhoedd
- yr anifeiliaid rydyn ni'n gofalu amdanyn nhw

Nod croesawu mwy o broffesiynau milfeddygol i'r fframwaith rheoleiddio milfeddygol yw gwella lles anifeiliaid a chryfhau hyder y cyhoedd. Rydym yn rhagweld y bydd ymestyn y rheoleiddio yn ei gwneud hi'n gliriach beth y caniateir i bob proffesiwn ei wneud.

Er mwyn i'r ddeddfwriaeth hon lwyddo, bydd angen i'r llywodraeth daro'r cydbwysedd cywir rhwng eglurder a hyblygrwydd rheoleiddio. Rhaid i'r fframwaith cyfreithiol fod yn ddigon cadarn ac addasadwy i ddiwallu anghenion esblygol y sector milfeddygol, nawr ac yn y dyfodol. Mae rhan sylweddol o hyn yn dibynnu ar gynyddu'r hyblygrwydd a roddir i'r rheoleiddiwr. Bydd hyn yn sicrhau y gallant wneud penderfyniadau priodol, o fewn y fframwaith llywodraethiant cywir, heb fod angen newid deddfwriaethol parhaus. Bydd y llywodraeth yn cyflawni hyn drwy fwy o oruchwyliaeth Seneddol ac annibynnol o'r rheoleiddiwr a'i weithgareddau. Bydd newidiadau llywodraethiant eraill yn gwella eglurder i weithwyr milfeddygol proffesiynol, ynghylch rôl a chyfrifoldebau'r rheoleiddiwr. Bydd hyn yn helpu i feithrin a chynnal lefel gref o ymddiriedaeth rhyngddynt.

Mae'r proffesiwn milfeddygol wedi cael cyfnod ansefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at y dyfodol. Dyfodol lle bydd

deddfwriaeth fodern, addas at y diben yn cefnogi'r tîm milfeddygol cyfan, yr anifeiliaid rydyn ni'n gofalu amdanyn nhw a'r llu o rolau rydyn ni'n eu gwneud.

**Yr Athro Christine Middlemiss CB (Prif Swyddog Milfeddygol y DU)**
**Brian Dooher (Prif Swyddog Milfeddygol Gogledd Iwerddon)**
**Sheila Voas (Prif Swyddog Milfeddygol yr Alban)**
**Richard Irvine (Prif Swyddog Milfeddygol Cymru)**

# Crynodeb gweithredol

Gweledigaeth y llywodraeth yw bod iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd yn ganolog i bopeth y mae'r sector milfeddygol yn ei wneud. Rydym hefyd eisiau sicrhau bod defnyddwyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau gwybodus. Mae'r papur yn nodi cynigion i newid y system reoleiddio i gyflawni'r weledigaeth hon.

Rydym wedi creu'r cynigion yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar ddiwygio Deddf Milfeddygon 1966 (VSA) ac o argymhellion ymchwiliad i'r farchnad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) i wasanaethau milfeddygol ar gyfer anifeiliaid anwes.

Cawsom 6,219 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a oedd ar agor rhwng 28 Ionawr a 25 Mawrth 2026. Cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion ar-lein (6,034) gyda nifer llai drwy e-bost (184) a'r post (1). Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, cynhaliwyd tri gweithdai (a fynychwyd gan 45 o gyfranogwyr), pedwar grŵp ffocws (26 o gyfranogwyr) ac 20 o gyfweliadau manwl. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid o bob cwr o'r sector milfeddygol, megis cyrff rheoleiddio, gweithwyr milfeddygol proffesiynol, gweithwyr proffesiynol perthynol, sefydliadau lles anifeiliaid a pherchnogion busnesau, yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd gan gynnwys perchnogion anifeiliaid (gan gynnwys anifeiliaid anwes, perchnogion ceffylau a ffermwyr).

Parhaodd ymchwiliad i'r farchnad y CMA bron i 2 flynedd, gyda'i ymgynghoriad cychwynnol yn derbyn 56,000 o ymatebion. Mae'r ymchwiliad hwn wedi dangos y diddordeb mawr a'r teimlad cryf iawn sydd gan weithwyr proffesiynol a defnyddwyr yn y farchnad filfeddygol ar gyfer anifeiliaid anwes.

Mae gweithwyr milfeddygol unigol yn dangos proffesiynoldeb a thosturi anhygoel. Mae diffyg hyblygrwydd yn y strwythur deddfwriaethol bresennol o ran pa weithgareddau y gall gwahanol weithwyr proffesiynol eu cwblhau. Mae hyn yn rhwystro'r sector rhag cyrraedd ei botensial llawn. Dim ond drwy gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd y gallwn gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y sector milfeddygol. Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig hon yn darparu'r sylfaen i sicrhau bod y sector milfeddygol yn gweithredu mewn ffordd sy'n fuddiol i anifeiliaid, gweithwyr proffesiynol, y cyhoedd a'r economi ehangach.

Mae ein diwygiadau'n cwmpasu 4 maes eang:

- rheoleiddio gweithwyr milfeddygol proffesiynol
- rheoleiddio pob busnes milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid
- cefnogaeth i ddefnyddwyr
- strwythurau a llywodraethiant y rheoleiddiwr

Bydd y mesurau hyn yn cynnal ein safonau uchel o ran lles anifeiliaid, yn cefnogi defnyddwyr, ac yn sicrhau bod gweithwyr milfeddygol proffesiynol yn parhau i fod yn rhan ddibynadwy o'r sector hanfodol hwn. Bydd mwy o oruchwyliaeth yn cynyddu hyder y cyhoedd yn y rhai sy'n gofalu am eu hanifeiliaid.

Mae'r gweithlu milfeddygol wedi bod yn cael trafferth recriwtio a chadw staff yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynyddu'r pwysau ar y rhai sy'n aros. Mae gan y gweithwyr milfeddygol proffesiynol hyn rôl arwyddocaol i'w chwarae wrth gadw cyhoedd y DU yn ddiogel, trwy'r gadwyn gyflenwi bwyd a thrwy gymryd camau lliniaru a gweithredu i atal achosion o glefydau. Bydd galluogi gweithwyr proffesiynol trwyddedig eraill i gwblhau gweithgareddau sydd wedi'u cadw ar gyfer milfeddygon yn unig ar hyn o bryd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd y cyhoedd, diogelwch bwyd a bioddiogelwch. Er enghraifft, mae gwaith milfeddygol yn cefnogi iechyd y cyhoedd yn unol â dull Un Iechyd - mae gweithwyr milfeddygol proffesiynol yn gweithredu mesurau bioddiogelwch a rhaglenni brechu i helpu i atal achosion o glefydau, a all hefyd leihau'r angen am wrthfiotigau ac ymyriadau eraill a all niweidio'r amgylchedd.

Bydd y rheoleiddiwr yn pennu pa weithgareddau y gall pob proffesiwn eu cwblhau a bydd yn eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol. Bydd hyn yn disodli'r system bresennol, nad yw'n addas at y diben ac sy'n methu o ran gwasanaethu'r proffesiynau milfeddygol ac anifeiliaid.

Dylai rheoleiddio statudol gweithwyr milfeddygol proffesiynol gynnwys yr holl weithwyr proffesiynol yn y sector, a diogelu eu teitlau. Bydd yn rhaid i bob gweithiwr proffesiynol yn y maes hwn wneud cais am drwydded i ymarfer i gynnal gweithgareddau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid penodol.

Bydd rheoleiddio gweithwyr proffesiynol o dan Ddeddf ddiwygiedig hefyd yn cynnwys cynllun addasrwydd i ymarfer wedi'i ddiweddaru, yn seiliedig ar "amhariad cyfredol" yn hytrach na chamymddwyn yn y gorffennol. O dan y broses newydd, bydd y rheoleiddiwr yn ystyried a yw gweithiwr proffesiynol trwyddedig yn peri risg i les anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd ar hyn o bryd, yn hytrach na dim ond adolygu gweithredoedd y gorffennol. Bydd cyflwyno gwahanol fathau o drwyddedau yn dileu rhwystrau sydd ar hyn o bryd yn atal pobl ag anableddau rhag ymuno â'r proffesiynau milfeddygol yn ogystal â pharhau i hwyluso anghenion brys y gweithlu.

Bydd cyflwyno rheoleiddio busnesau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid yn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau milfeddygol yn bodloni safonau ar draws y sector. Bydd y safonau hyn yn ymwneud â disgwyliadau clinigol, gofynion staffio, a thryloywder. Bydd gan y rheoleiddiwr bwerau i gefnogi monitro a gorfodi'r safonau hyn. Mae'r pwerau hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth, cael mynediad ar gyfer archwiliadau, a rhoi sancsiynau lle nad yw busnesau'n cydymffurfio. Bydd y Llywodraeth a'r rheoleiddiwr yn adolygu gofynion busnes yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben.

Bydd rheoleiddio busnesau hefyd yn galluogi cyflwyno dyletswyddau defnyddwyr, gan helpu i fynd i'r afael â'r "niwed i ddefnyddwyr" a nodwyd gan y CMA. Bydd hyn yn cynyddu tryloywder ac yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr y wybodaeth berthnasol ar gael iddynt i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â gofalu am eu hanifeiliaid. Yn ogystal, bydd yn cyflwyno safonau ynghylch trin cwynion, yn ogystal â dull gwneud iawn rhwymol i ddefnyddwyr.

Wrth i reoleiddio gweithwyr proffesiynol a busnesau milfeddygol newid, mae'n hanfodol bod strwythur a phrosesau llywodraethiant y rheoleiddiwr yn addasu i fodloni'r gofynion newydd. Mae Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS) yn unigryw gan ei fod ar hyn o bryd yn cynnal gweithgareddau arweinyddiaeth rheoleiddio a phroffesiynol. Mae'n gwneud hyn o dan y VSA a'i Siarter Frenhinol ei hun. Mae hyn wedi arwain at ddryswch i'r cyhoedd a'r proffesiwn ynghylch rôl a phwrpas yr RCVS. Drwy symleiddio'r dirwedd reoleiddio a chynyddu tryloywder y gweithgareddau y mae'r RCVS yn eu cynnal, byddwn yn cynyddu eglurder ynghylch y rheoleiddiwr ac ymddiriedaeth ynddo. Yn unol ag adolygiadau o reoleiddio gweithwyr proffesiynol a busnesau, bydd model y rheoleiddiwr yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y llywodraeth i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol.

Er mwyn cydweddu'r rheoleiddiwr ymhellach â normau ac arferion gorau cyfredol, bydd Deddf newydd yn cynyddu craffu Seneddol ac annibynnol ar weithgareddau'r rheoleiddiwr. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn parhau i ddiogelu'r cyhoedd, cynnal lles anifeiliaid, a chynnal ymddiriedaeth yn y proffesiynau milfeddygol.

Mae'r llywodraeth hon wedi ymrwymo i sicrhau bod rheoleiddio'n cael ei gynnal ar y lefel gywir ac nad yw'n ormod o faich ar fusnesau a sefydliadau eraill. Rydym wedi cydbwyso hyn â meysydd lle mae angen clir am reoleiddio. Mae'r polisi hwn wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â'r Gyfarwyddiaeth Rheoleiddio ac mae'n cydymffurfio â Chynllun Gweithredu Rheoleiddio y llywodraeth.

Mae diwygio'r VSA, pan fydd amser Seneddol yn caniatáu, yn hanfodol i sicrhau sector milfeddygol ffyniannus. Sector ffyniannus sy'n gwella lles anifeiliaid, yn cefnogi gweithwyr proffesiynol, yn meithrin ymddiriedaeth defnyddwyr, ac yn tyfu economi'r DU.

# Yr angen am ddiwygio deddfwriaethol

## Cefndir

Mae proffesiwn milfeddygol y DU yn un o'r hynaf yn y byd. Agorodd yr ysgol filfeddygol gyntaf Saesneg ei hiaith, sef y Coleg Milfeddygol Brenhinol, Llundain, ym 1791 i drin ceffylau gwaith sâl. Ym 1844, crëwyd Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS), gan ddod yn rheoleiddiwr statudol o dan y Ddeddf Milfeddygon gyntaf ym 1881. Mae hon wedi cael ei disodli sawl gwaith ers hynny, gyda'r fersiwn ddiweddaraf, Deddf Milfeddygon 1966 (VSA), yn dal i fod y brif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r sector heddiw.

Mae is-ddeddfwriaeth wedi diweddaru ac ategu'r VSA ar nifer o achlysuron dros y blynyddoedd ers hynny. Fodd bynnag, mae terfyn ymarferol i'r hyn y gall y VSA ei gyflawni drwy'r dull hwn oherwydd cyfyngiadau'r Ddeddf ei hun. Mae galwadau wedi bod am ddiwygio'r VSA ers degawdau oherwydd:

- newidiadau mewn arfer gorau ar gyfer rheoleiddio gweithwyr proffesiynol
- cyflwyno aelodau newydd o'r tîm milfeddygol
- newidiadau ym mherchnogaeth practisau
- pryderon gan y cyhoedd ynghylch tryloywder
- diffyg hyblygrwydd y ddeddfwriaeth bresennol

Po hiraf y mae'r VSA wedi aros yr un fath, mae’r brys am y diwygiadau hynny wedi cynyddu. Rydym bellach mewn cyfnod lle gallai methu â diwygio gael goblygiadau gwirioneddol i les anifeiliaid, yn ogystal â gweithwyr milfeddygol proffesiynol a defnyddwyr. Mae'r llywodraeth yn hynod falch o waith gweithwyr milfeddygol proffesiynol yn y DU. Rydym yn cydnabod pa mor hanfodol yw sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cefnogi'r gweithwyr proffesiynol hyn, yn enwedig o ystyried y pwysau y mae llawer ohonynt yn eu hwynebu.

Yn ogystal, mae'r cyhoedd a'r llywodraeth yn pryderu am gostau byw, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn bennaf oherwydd effeithiau pandemig Covid-19, a'r gwrthdaro yn yr Wcrain a'r Dwyrain Canol. Mae'n bwysicach nag erioed bod y llywodraeth yn gwneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi'r cyhoedd gyda'u harian. Tynnodd ymchwiliad y CMA sylw at y gwirioneddau anodd ynghylch cynnydd mewn ffioedd uwchlaw chwyddiant ar gyfer gwasanaethau milfeddygol ar gyfer anifeiliaid anwes; unwaith eto, gan dynnu sylw at yr angen am newid nawr.

Yn 2025, nododd adroddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bryderon ynghylch gwydnwch y DU i fygythiadau gan glefydau anifeiliaid. Nododd yr adroddiad hwn yn benodol yr anawsterau o ran recriwtio a chadw gweithwyr milfeddygol proffesiynol i ymgymryd â gwaith gwyliadwriaeth a bioddiogelwch. Ar hyn o bryd mae yna lawer o weithgareddau na all ond milfeddygon eu gwneud, sy'n cynyddu'r pwysau arnynt. Bydd diwygio'r VSA yn galluogi gweithwyr proffesiynol trwyddedig eraill o fewn y tîm milfeddygol

i ymgymryd â gwaith ychwanegol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod milfeddygon ar gael i gwblhau'r gwaith y dylent hwy yn unig ei wneud.

Mae ymgynghoriad diweddar ac ymchwiliad CMA ar wahân hefyd wedi llywio ein dull o ddiwygio deddfwriaethol yn fanwl.

## Ymgynghori

Yn ystod 2025, cynhaliodd Defra broses gyd-ddylunio gyda'n prif randdeiliaid milfeddygol. Roedd hyn yn cynnwys Gwasanaethau Milfeddygol y Llywodraeth (GVS), yr RCVS, Cymdeithas Milfeddygol Prydain (BVA), Cymdeithas Nyrsio Milfeddygol Prydain (BVNA), a'r Cyngor Ysgolion Milfeddygol. Llywiodd y trafodaethau ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwygiadau posibl i'r VSA. Lansiwyd yr ymgynghoriad gan Defra gyda chefnogaeth a chydsyniad y Llywodraethau Datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Rhedodd rhwng 28 Ionawr a 25 Mawrth 2026 a derbyniwyd cyfanswm o 6,219 o ymatebion. Cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion ar-lein (6,034) gyda nifer llai drwy e-bost (184) a'r post (1). Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, cynhaliwyd tri gweithdai (a fynychwyd gan 45 o gyfranogwyr), pedwar grŵp ffocws (26 o gyfranogwyr) ac 20 o gyfweliadau manwl. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid o bob cwr o'r sector milfeddygol, megis cyrff rheoleiddio, gweithwyr milfeddygol proffesiynol, gweithwyr proffesiynol perthynol, sefydliadau lles anifeiliaid a pherchnogion busnesau, yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd gan gynnwys perchnogion anifeiliaid (gan gynnwys anifeiliaid anwes, perchnogion ceffylau a ffermwyr). Adolygwyd a dadansoddwyd y data ansoddol i gynorthwyo ymhellach â datblygu'r polisi.

Gellir gweld data o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ein gwefan yr ymgynghoriad yma.

## CMA

Yn dilyn pryderon a godwyd gan y cyhoedd ac adolygiad cychwynnol, lansiodd y CMA ymchwiliad i'r farchnad i wasanaethau milfeddygol ar gyfer anifeiliaid anwes ar 23 Mai 2024. Tynnodd yr ymchwiliad hwn sylw at gyfyngiadau'r VSA presennol a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gystadleuaeth o fewn y sector, ac felly ar ddefnyddwyr. Cyhoeddodd y CMA yr adroddiad terfynol o'r ymchwiliad hwn ar 24 Mawrth 2026 ac mae'n argymell yn glir bod y llywodraeth yn diwygio'r VSA.

Mae manylion llawn yr argymhellion ac ymateb y llywodraeth iddynt i'w gweld yn Atodiad

# Gweledigaeth ar gyfer y sector milfeddygol

Ein gweledigaeth ar gyfer y sector milfeddygol yw bod iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd wrth wraidd popeth y mae'r sector milfeddygol yn ei wneud. Ar yr un pryd, rydym am sicrhau bod defnyddwyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau gwybodus.

Mae'r proffesiynau milfeddygol wedi dangos yn gyson eu bod yn ofalgar, yn fedrus iawn, ac yn ymrwymedig iawn. Maen nhw'n gofalu am filiynau o anifeiliaid anwes ac anifeiliaid sy'n gymdeithion bob dydd. Maent wedi bod yn ganolog i'r ymateb cenedlaethol mewn cyfnodau o argyfwng, gan gynnwys yr achosion o Glwy'r Traed a'r Genau yn 2001 ac achosion mwy diweddar o'r Ffliw Adar Pathogenig Iawn. Mae gweithwyr milfeddygol proffesiynol hefyd wedi chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi system fwyd y DU a masnach ryngwladol. Er enghraifft, drwy eu gwaith ar wiriadau Iechydol a Ffytoiechydol (SPS) yn dilyn Ymadael â'r UE ac fel rhan o'n gwaith i ailosod ein perthynas â'r UE. Mae eu gwaith yn cyfrannu'n uniongyrchol at y ffaith bod y DU yn cael ei gweld fel partner masnach diogel a dibynadwy i weddill y byd, gan ategu ein masnach allforio bwyd a diod flynyddol gwerth £25 biliwn. Bob dydd, maen nhw'n diogelu iechyd a lles miliynau o anifeiliaid ledled y DU, gan gynnwys y rhai y mae dros 17 miliwn o aelwydydd yn eu hystyried fel rhan o'u teulu.

Mae gweithwyr milfeddygol proffesiynol, a'r proffesiynau unigol y maent yn perthyn iddynt, yn gallu ffynnu orau pan fydd rheoliadau a chanllawiau clir yn nodi pwy all ymgymryd â pha weithgareddau. Mae hyn ochr yn ochr â'r hyder bod teitlau proffesiynol yn cael eu diogelu a'u defnyddio gan y rhai sydd â'r cymwysterau a'r trwyddedau priodol yn unig. Bydd yr eglurder hwn yn helpu'r cyhoedd i ddeall yn well pwy sy'n gymwys i ddarparu gwasanaethau milfeddygol a chwmpas y gwasanaethau hynny, gan gryfhau ymddiriedaeth yn y proffesiynau. Dylai mwy o ymddiriedaeth y cyhoedd, yn ei thro, annog mwy o ymgysylltiad â gweithwyr milfeddygol proffesiynol, gan wella canlyniadau ar gyfer lles anifeiliaid. Bydd trwyddedu'r tîm milfeddygol ehangach hefyd yn galluogi gwaith pwysig, fel bioddiogelwch, i gael ei wneud gan weithwyr proffesiynol dibynadwy a chymwys.

Gwnaeth y llywodraeth hon ymrwymiad clir yn ei Maniffesto Etholiad 2024 i gynnal a gwella lles anifeiliaid. Mae cyflawni'r ymrwymiad hwnnw'n dibynnu ar sector milfeddygol cryf a chynaliadwy.

Mae'r llywodraeth hefyd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â chostau byw. Mae cyflawni hyn yn gofyn am farchnadoedd sy'n gweithredu'n effeithiol, gyda digon o gystadleuaeth a mynediad at wybodaeth glir fel y gall defnyddwyr wneud penderfyniadau gwybodus. Gall sector milfeddygol ffyniannus gynyddu dewis i ddefnyddwyr, ysgogi cystadleuaeth iach, a chyfrannu at dwf economaidd ehangach.

Bydd gwasanaethau milfeddygol yn parhau i fod yn ddiwydiant a redir yn breifat, gyda busnesau’n rhydd i benderfynu ar y gwasanaethau maen nhw’n eu cynnig a’r prisiau maen nhw’n eu codi. Bydd gwella tryloywder, yn enwedig o ran prisiau a pherchnogaeth, yn helpu defnyddwyr i gymharu gwasanaethau ac arfer dewis. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo

cystadleuaeth o fewn y farchnad a chefnogi fforddiadwyedd i'r 17.2 miliwn o gartrefi sy'n berchen ar anifeiliaid anwes yn y DU.

Dylai'r buddion hyn fod ar gael i bawb o fewn y DU. Byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i sicrhau y gallwn gynnal dull traws-DU o ymdrin â deddfwriaeth filfeddygol.

Er mwyn darparu sector milfeddygol ffyniannus, mae angen deddfwriaeth sy'n fodern ac yn addas at y diben arnom. Mewn byd sy'n newid yn gyflym ac weithiau'n ansicr, mae'n amhosibl rhagweld yr holl heriau a ddaw yn ystod y degawdau nesaf. Mae hyn yn arbennig oherwydd clefydau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, datblygiadau technolegol, a hinsawdd sy'n newid. Rhaid i ddeddfwriaeth newydd fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i'r llywodraeth, y rheoleiddiwr, a'r proffesiwn ymateb yn effeithiol i ddatblygiadau yn y dyfodol.

Rhaid i drefniadau llywodraethiant clir a thryloyw fod yn sail i hyn i gyd. Rhaid i'r rheoleiddiwr gael pwerau priodol i gyflawni ei ddyletswyddau a'i amcanion statudol. Rhaid hefyd cael mecanweithiau gwirio ac adolygu cadarn i sicrhau ei fod yn parhau i weithredu'n effeithiol, yn gymesur, ac er budd y cyhoedd.

# Rheoleiddio gweithwyr milfeddygol proffesiynol

Mae gweithwyr milfeddygol proffesiynol yn chwarae rhan hanfodol o ran:

- diogelu ein safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid
- cyflawni rheolaeth ar glefydau anifeiliaid
- cefnogi diogelwch bwyd ac iechyd y cyhoedd
- cynnal masnach ryngwladol

Er mwyn i'r proffesiynau ffynnu a pharhau i gyflawni'r canlyniadau hyn, mae'n bwysig bod y system ar gyfer rheoleiddio gweithwyr proffesiynol unigol yn drylwyr ac yn gadarn.

Ymddiriedir mewn gweithwyr milfeddygol proffesiynol, fel llawer o weithwyr proffesiynol rheoleiddiedig eraill, i ddefnyddio barn broffesiynol a gweithredu o fewn eu meysydd cymhwysedd eu hunain. Gallai methu â rheoleiddio gweithwyr milfeddygol proffesiynol yn ddigonol arwain at bobl sydd heb gymwysterau addas yn ymarfer ar anifeiliaid. Gallai hyn gael goblygiadau peryglus i anifeiliaid, y cyhoedd, bioddiogelwch, masnach a'r economi. Ymddiriedaeth mewn gweithwyr milfeddygol proffesiynol yw conglfaen sector milfeddygol dibynadwy a gwydn.

## Yr angen am ddiwygio deddfwriaethol

Nid yw'r fframwaith rheoleiddio presennol bellach yn adlewyrchu sut mae gofal milfeddygol yn cael ei ddarparu heddiw. Mae'r VSA yn rheoleiddio ac yn diogelu teitl milfeddyg yn unig ledled y DU, ac yn y cyfamser, mae Deddf Ffarieriaid (Cofrestru) 1975 (FRA) yn rheoleiddio ac yn diogelu teitl ffarieriaid yn Lloegr, Yr Alban a Chymru.

Rheoleiddio statudol cyfyngedig yn unig sy'n berthnasol i nyrsys milfeddygol cofrestredig a gweithwyr milfeddygol proffesiynol perthynol (AVPs). Mae'r rheoliad yn cyfyngu ar y gwaith y gall y gweithwyr proffesiynol hyn ei gwblhau, gan eu bod yn ddibynnol naill ai ar weithgareddau a restrir yn Atodlen 3 o'r VSA neu ar orchymyn eithrio. Mae hyn yn creu rhwystrau i ddefnydd effeithiol o'r tîm milfeddygol ehangach, yn rhoi pwysau diangen ar filfeddygon, ac yn cyfyngu ar hyblygrwydd y gweithlu. Mae hefyd yn creu dryswch i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ynghylch pwy sy'n gymwys, yn awdurdodedig, ac yn atebol am wahanol agweddau ar ofal iechyd anifeiliaid.

Mae diffyg rheoleiddio cynhwysfawr ar gyfer pob gweithiwr milfeddygol proffesiynol yn cyflwyno risgiau i les anifeiliaid a hyder y cyhoedd. Gall unigolion ddefnyddio teitlau proffesiynol heb fod ganddynt gymwysterau na sgiliau priodol. Mae hyn yn cynyddu'r potensial ar gyfer safonau gofal gwael ac yn ei gwneud hi'n anodd i berchnogion anifeiliaid wneud penderfyniadau gwybodus. Mae dryswch pellach yn cael ei achosi gan y gwahanol gofrestrau sydd gan y rheoleiddiwr ar hyn o bryd, gan gynnwys cofrestrau 'ymarfer dramor', a 'heb fod yn ymarfer'. Mae'r darnio hwn yn ei gwneud hi'n anoddach i ddefnyddwyr a'r cyhoedd lywio'r system a gwirio a yw gweithiwr proffesiynol wedi'i awdurdodi i ymarfer, gan wanhau tryloywder ac ymddiriedaeth.

Mae diffyg rheoleiddio cynhwysfawr hefyd yn creu risgiau i les anifeiliaid a dealltwriaeth y cyhoedd. Gall unigolion ddefnyddio teitlau nyrsys milfeddygol neu AVPs heb fod ganddynt y cymwysterau na'r sgiliau priodol. Mae hyn yn cynyddu'r risg o ofal nad yw o safon a drysu perchnogion anifeiliaid a defnyddwyr. Mae'r diffyg eglurder yn tanseilio hyder ac yn ei gwneud hi'n anoddach i'r cyhoedd ddeall pwy sydd wedi'i hyfforddi'n briodol a'i awdurdodi i drin eu hanifeiliaid.

Mae pryderon hefyd ynghylch bioddiogelwch y DU a sut y byddai'r wlad yn ymateb i fygythiadau clefydau. Mae gweithwyr milfeddygol proffesiynol yn rhan hanfodol o system bioddiogelwch y DU gan gyfrannu at atal, canfod ac ymateb. Drwy waith clinigol arferol, nhw yw'r cyntaf yn aml i nodi patrymau clefydau anarferol ac adrodd am gyflyrau hysbysadwy. Mae hyn yn cefnogi canfod cynnar a gwyliadwriaeth genedlaethol. Ar ffermydd ac mewn practisau anifeiliaid anwes, maent yn helpu i atal clefydau rhag lledaenu trwy raglenni brechu, cyngor bioddiogelwch a defnydd cyfrifol o feddyginiaethau, gan gynnwys stiwardiaeth gwrthficrobaidd.

Yn ystod achosion, mae gweithwyr milfeddygol proffesiynol yn gweithredu mesurau rheoli ar lawr gwlad ac yn cefnogi awdurdodau milfeddygol swyddogol. Maent hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth ardystio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid ar gyfer masnach a chynnal bioddiogelwch ar y ffiniau. Maent hefyd yn cynghori perchnogion anifeiliaid ar gydymffurfio â gofynion iechyd a lles. Bydd ehangu'r tîm milfeddygol i gynnwys gweithwyr proffesiynol cymwys a thrwyddedig eraill, a all naill ai gyflawni gwaith bioddiogelwch neu leddfu pwysau ar filfeddygon, yn cryfhau ein gwydnwch yn erbyn clefydau. Bydd hyn yn galluogi milfeddygon i wneud gwaith bioddiogelwch.

Mae'r broses ddisgyblu gyfredol a nodir yn y VSA yn cynnwys asesu a yw gweithiwr proffesiynol cofrestredig wedi bod yn euog o ymddygiad gwaradwyddus. Mae ymddygiad gwaradwyddus yn cyfeirio at ymddygiad sydd ymhell o fod yr hyn a ddisgwylir gan weithwyr proffesiynol cofrestredig. Mae'n edrych yn ôl, gan ganolbwyntio ar gamymddwyn yn y gorffennol, yn hytrach nag ar ymddygiad a chymhwysedd cyfredol person. Dim ond ar bobl y mae'n ystyried eu bod wedi cyflawni camymddwyn proffesiynol difrifol neu drosedd berthnasol y mae gan Bwyllgor Disgyblu'r rheoleiddiwr y pŵer i osod  sancsiynau. Yr unig sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor yw dileu'r unigolyn oddi ar y gofrestr neu ei wahardd dros dro. Mae hyn yn gadael ychydig iawn o le ar gyfer ymyrraeth gymesur, amserol neu gefnogaeth gynnar lle mae pryderon yn codi. Nid yw'r dull hwn yn addas iawn ar gyfer system reoleiddio fodern sy'n canolbwyntio ar atal.

Codwyd y materion hyn yn gyson drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar.

## Dull polisi

Rydym wedi ystyried yn ofalus yr argymhellion a wnaed gan y CMA i'r llywodraeth yn y maes hwn, yn ogystal ag adborth o'n hymgynghoriad cyhoeddus diweddar. Mae rhagor o fanylion am y rhain i'w gweld yn Atodiad I ac ar ein gwefan yr ymgynghoriad yma. Mae

gwybodaeth am agweddau a fydd mewn deddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol, neu'n cael eu penderfynu gan y rheoleiddiwr yn Atodiad II.

**Trwyddedu**

Mae trwydded i ymarfer yn ffordd o reoleiddio gweithwyr proffesiynol. Rhaid iddynt feddu ar drwydded er mwyn cyflawni tasgau penodol. Fe'i hystyrir yn arfer gorau wrth reoleiddio proffesiynau hanfodol eraill, fel gweithwyr meddygol proffesiynol.

Mae trwydded i ymarfer yn galluogi'r rheoleiddiwr i fynd i'r afael â phryderon ynghylch cymhwysedd, ymddygiad neu iechyd yn brydlon ac yn gymesur, gan gynnwys cyn iddo roi neu adnewyddu trwydded. Mae hyn wedi'i gynllunio i gynyddu ymddiriedaeth rhwng y proffesiynau a'r cyhoedd. Dangosodd ein hymgynghoriad fod cefnogaeth sylweddol i'r dull hwn.

Mae trwydded i ymarfer:

- yn bwysig ar gyfer diogelu'r cyhoedd
- yn darparu mecanwaith ar gyfer goruchwyliaeth barhaus gan y rheoleiddiwr
- yn helpu cyflogwyr a defnyddwyr i wirio a yw gweithwyr proffesiynol wedi'u hawdurdodi'n gyfreithiol i weithio yn eu maes

Roeddem wedi ymgynghori ar yr angen am yswiriant indemniad fel rhan o'r broses drwyddedu. Dywedodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad y gallai hyn wahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn graddedigion newydd a'r rhai sydd ar absenoldeb mamolaeth, felly rydym wedi dileu'r gofyniad hwn.

Mae cydnabod cyfraniad holl aelodau'r tîm milfeddygol (nyrsys milfeddygol, gweithwyr milfeddygol proffesiynol perthynol, milfeddygon) yn hanfodol i lwyddiant y diwygiadau hyn. Mae pob proffesiwn yn dod â'i sgiliau ei hun i ddarparu gofal cynhwysfawr i anifeiliaid a chynnal iechyd y cyhoedd. Cafodd hyn gefnogaeth sylweddol yn ein hymgynghoriad cyhoeddus ac mae'n gam pwysig i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd o fewn y proffesiynau. Mae hefyd yn helpu i gynnal a gwella safonau lles anifeiliaid.

> *"Os caiff y drwydded i ymarfer ei monitro a'i bod yn cynnal safon gymhwysedd ddiffiniedig, byddai'n darparu sylfaen gadarn i adeiladu dull rheoleiddio unedig arni. Byddai hyn yn helpu i warantu bod pob ymarferydd yn gweithredu o dan yr un disgwyliadau o ran ansawdd, lles a phroffesiynoldeb."*
>
> - ymateb i'r ymgynghoriad

Rydym yn gweld manteision gwirioneddol mewn pob gweithiwr milfeddygol proffesiynol yn cael ei reoleiddio gan un corff. Gall y dull hwn sicrhau bod safonau wedi'u halinio a chynyddu dealltwriaeth y tîm milfeddygol ehangach. Bydd yn symleiddio rheoleiddio ac yn

sicrhau cysondeb ar draws rheoleiddio'r tîm milfeddygol cyfan. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol ar y cyfan o ran dod â ffarieriaid o dan y VSA newydd a rheoleiddio trinwyr troednoeth ceffylau (sy'n arbenigo mewn cynnal a chadw carnau ceffylau heb roi esgidiau) ledled y DU fel AVPs.

Ar hyn o bryd mae Atodlen 3 y VSA yn manylu ar ba weithgareddau penodol y gall pobl nad ydynt yn  filfeddygon eu cwblhau. Nid yw manylu ar weithgareddau penodol mewn deddfwriaeth sylfaenol y gall gwahanol weithwyr proffesiynol eu cwblhau yn cael ei ystyried yn arfer gorau mwyach. Tynnwyd sylw at bryderon ynghylch hyn gan y CMA.

Ein dull ni yn hytrach yw grymuso'r rheoleiddiwr i bennu, adolygu'n rheolaidd a diweddaru canllawiau ynghylch pa weithgareddau y gall yr holl wahanol broffesiynau y maent yn eu rheoleiddio eu cwblhau.

Bydd hyn yn:

- cynyddu capasiti o fewn y sector milfeddygol
- sicrhau bod sgiliau'n cael eu defnyddio'n llawn
- rhoi eglurder i'r cyhoedd a'r proffesiwn ehangach ynghylch pwy sydd â thrwydded i gwblhau pa dasgau

Bydd hyn i gyd hefyd yn cefnogi adeiladu sector milfeddygol ffyniannus.

Bydd cynnal darpariaethau i alluogi pobl heb drwydded, fel ffermwyr a pherchnogion anifeiliaid, i gwblhau gweithgareddau penodol yn bwysig er mwyn sicrhau bod iechyd a lles anifeiliaid uchel yn darparu manteision atal clefydau, cynaliadwyedd amgylcheddol a llesiant cymdeithasol.

Mae llawer o AVPs eisoes yn gweithredu o dan orchymyn eithrio neu o fewn hyblygrwydd Atodlen 3 y VSA, fel ffisiotherapyddion milfeddygol. Mewn llawer o'r meysydd lle mae AVPs yn gweithio, mae angen i filfeddyg oruchwylio diagnosis a chynllunio triniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd, bydd y gweithwyr proffesiynol hynny'n gallu gweithredu'n annibynnol. Cafodd cydnabod AVPs a'u gwaith fel rhan o'r tîm milfeddygol gefnogaeth gref yn ein hymgynghoriad hefyd.

Byddwn yn darparu cyfnod pontio os oes angen. Bydd hyn yn sicrhau y gall y rhai sy'n dibynnu ar Atodlen 3 o'r VSA ar hyn o bryd, neu orchmynion eithrio, barhau i gyflawni rhai gweithdrefnau nes bod y gweithgareddau eithriedig yn cael eu dwyn o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth newydd.

Fe wnaethon ni adolygu'r diffiniad o anifail yn yr ymgynghoriad, gyda'r cynnig i'w alinio â'r Ddeddf Lles Anifeiliaid (Ymdeimladoldeb) 2022. Cododd lleiafrif bryderon ynglŷn â hyn. Fodd bynnag, rydym yn sefyll yn gadarn yn ein huchelgais i alinio ein diffiniad â'r ddeddfwriaeth uchod er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddiogelu lles anifeiliaid. Byddai cyfyngu'r diffiniad o anifail i famaliaid yn unig yn peryglu iechyd pobl trwy glefydau sonotig fel ffliw adar pathogenig iawn. Mae methu ag alinio'r diffiniad â deddfwriaeth lles anifeiliaid

arall hefyd yn peryglu chwalu'r dirwedd reoleiddio. Gallai hyn niweidio safonau uchel y DU o ran lles anifeiliaid, fel y'i hamlygwyd gan y [Pwyllgor Ymdeimladoldeb Anifeiliaid] yn gynharach eleni.

**Addasrwydd i ymarfer**

Gall model addasrwydd i ymarfer sy'n cael ei weithredu'n dda wella lles anifeiliaid drwy gefnogi gweithwyr proffesiynol i fodloni'r safonau gofynnol a chynyddu hyder defnyddwyr yn y proffesiynau milfeddygol. Wedi'i alinio ag arfer gorau, dylai'r system hon fod yn seiliedig ar 'amhariad cyfredol' a chefnogaeth y gellir ei rhoi yn hytrach na phroses gosbol sy'n canolbwyntio ar gamymddwyn yn y gorffennol yn unig. Fodd bynnag, gall camymddwyn yn y gorffennol barhau i fod yn berthnasol, ond dim ond i'r graddau y mae'n helpu i benderfynu a yw gweithiwr proffesiynol wedi'i amharu ar hyn o bryd ac yn peri risg barhaus (er enghraifft, trwy batrwm o broblemau ailadroddus).

Mae'n ffordd o sicrhau bod gan bob gweithiwr proffesiynol sydd â thrwydded i ymarfer y sgiliau, y wybodaeth, y cymeriad a'r iechyd cywir i weithredu'n ddiogel yn eu proffesiwn. Nod proses addasrwydd i ymarfer yw cynnig y gefnogaeth sydd ei hangen ar weithwyr proffesiynol i weithio'n ddiogel. Dim ond os oes risg i anifeiliaid, y cyhoedd, defnyddwyr, neu enw da'r proffesiynau y bydd sancsiynau'n cael eu rhoi. Roedd cefnogaeth i'r cynigion hyn yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Gall 'amhariad cyfredol' gyfeirio at:

- camymddwyn difrifol (torri'r Cod Ymddygiad Proffesiynol)
- perfformiad proffesiynol yn sylweddol is na'r disgwyl
- heb y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg
- euogfarn am drosedd

Gallai hefyd gyfeirio at gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor (neu anabledd). Neu os na all rhywun weithio'n ddiogel (iddyn nhw'u hunain neu eu cleifion) yn y maes maen nhw'n gweithio ynddo gydag addasiadau rhesymol ar waith. Mae hyn yn cynnwys camddefnyddio sylweddau neu alcoholiaeth. Ni fydd angen i weithwyr proffesiynol trwyddedig rybuddio'r rheoleiddiwr yn awtomatig ar ôl diagnosis o gyflwr. Ond dylent wneud defnydd o asesiadau iechyd galwedigaethol ac addasiadau rhesymol trwy eu cyflogwr, os ydynt ar gael. Bydd y rheoleiddiwr ond yn dod yn rhan o'r broses os bydd naill ai:

- y cyflwr yn effeithio ar farn broffesiynol yr unigolyn
- mae unigolyn yn ceisio cyflawni gwaith nad yw'n gallu ei wneud yn ddiogel

Mae'n bwysig bod mecanweithiau ar waith i'r rheoleiddiwr ddiogelu anifeiliaid a'r cyhoedd. Mae hyn yn arbennig o wir os yw gweithiwr proffesiynol naill ai'n methu â defnyddio ei farn broffesiynol neu'n dangos barn broffesiynol wael. Yn unol ag arfer gorau ar gyfer rheoleiddwyr proffesiynol, rhaid iddynt sicrhau bod cefnogaeth i'r gweithiwr proffesiynol a

sancsiynau, os oes angen, i ddiogelu eraill. Cododd yr ymatebion i'n hymgynghoriad yr angen am gymesuredd hefyd.

Gallai pryder ynghylch addasrwydd gweithiwr proffesiynol i ymarfer ddechrau unrhyw le, gan gynnwys:

- aelodau’r cyhoedd: gallant godi pryderon difrifol ynghylch addasrwydd i ymarfer gyda’r rheoleiddiwr – nid yw hyn yr un peth â phroses gwyno
- cleientiaid y gweithiwr proffesiynol: dylai busnesau ddelio ag anfodlonrwydd ynghylch gweithredoedd gweithiwr proffesiynol trwyddedig, ond gall cleient godi pryderon difrifol ynghylch addasrwydd gweithiwr proffesiynol i ymarfer gyda'r rheoleiddiwr
- cydweithwyr y gweithiwr proffesiynol: gall cydweithwyr godi'r pryderon hyn yn uniongyrchol gyda'r rheoleiddiwr - bydd angen i'r rheoleiddiwr sicrhau bod amddiffyniad a chefnogaeth i unrhyw un sy'n codi pryderon ynghylch addasrwydd eu cydweithiwr i ymarfer
- cyflogwr gweithiwr proffesiynol: dylai cyflogwyr anelu at gefnogi eu gweithwyr trwy addasiadau rhesymol cyn cyfeirio at y rheoleiddiwr, os yw'n briodol gwneud hynny
- y gweithiwr proffesiynol ei hun: drwy hunangyfeirio

Dylai proses addasrwydd i ymarfer fod yn gefnogol i weithwyr proffesiynol, ond yn y pen draw mae yno i ddiogelu anifeiliaid, y cyhoedd, defnyddwyr ac enw da'r proffesiynau. Os yw rhywun yn anaddas i ymarfer ac yn peri perygl, mae angen cymryd camau gweithredu. Dylai unrhyw sancsiynau fod yn gymesur wrth leihau'r risg a nodwyd. Bydd sicrhau mai dim ond y rhai sy'n addas i ymarfer sydd â thrwydded yn cynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiynau milfeddygol, gan gefnogi'r sector i ffynnu.

Byddai gan y rheoleiddiwr y cyfrifoldeb i brofi 'amhariad cyfredol'. Byddai angen iddo ei brofi i'r safon sifil (ar ôl cydbwysedd tebygolrwydd), yn unol ag arfer gorau ymhlith rheoleiddwyr proffesiynol eraill. Codwyd y risg y byddai hyn yn agor y llifddorau i lawer mwy o achosion yn yr ymgynghoriad. Roedd pryder ynghylch yr effaith y gallai hyn ei chael ar aelodau unigol o'r proffesiynau.

Er bod hyn yn risg bosibl, rydym yn asesu, fel mewn proffesiynau eraill, y bydd asesiad cychwynnol o achosion yn hidlo achosion amhriodol allan yn gyflym ac yn effeithiol. Bydd hyn yn cyfyngu ar faint o amser y byddai hyn yn fater cyfredol i unigolion. Bydd paramedrau a chanllawiau clir hefyd i'r rhai sydd am godi cwyn ynghylch y ffordd orau o wneud hyn. Drwy gyflwyno cynllun addasrwydd i ymarfer, mae'r llywodraeth hon yn cydnabod bod darparu sector milfeddygol ffyniannus yn dibynnu ar y gweithwyr proffesiynol ynddo. Dylai fod cefnogaeth i gynnal safonau lle bo angen.

## Manylion polisi

Mae'r llywodraeth yn cydnabod yr angen am ddull mwy hyblyg a seiliedig ar risg o reoleiddio proffesiynol. Rydym wedi ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad, tystiolaeth gan y CMA, ac arfer gorau mewn proffesiynau eraill.

**Trwydded i ymarfer**

O dan VSA diwygiedig, byddwn yn cyflwyno trwydded i ymarfer ar gyfer pob gweithiwr milfeddygol proffesiynol. Bydd hyn yn rhoi eglurder a hyder i'r rhai sy'n ymgysylltu â gweithwyr milfeddygol proffesiynol, ac yn sicrhau bod iechyd a lles anifeiliaid yn cael eu cynnal ledled y DU.

O dan ddeddfwriaeth newydd bosibl, byddem yn ceisio alinio'r diffiniad o 'anifail' â Deddf Lles Anifeiliaid (Ymdeimladoldeb) 2022, sy'n golygu y byddai 'anifail' yn cyfeirio at:

- unrhyw fertebrat heblaw *Homo sapiens*
- unrhyw folwsg seffalopod
- unrhyw gramennog dectroed

Os bydd y diffiniad o 'anifail' yn Neddf Lles Anifeiliaid (Ymdeimladoldeb) 2022 yn newid, byddai'r diweddariadau hynny'n berthnasol yn awtomatig i VSA wedi'i diweddaru. Mae hwn yn gam pwysig i sicrhau bod pob anifail sy'n gallu teimlo yn cael ei drin yn briodol. Fel gyda chynnwys AVPs newydd, byddwn yn sicrhau bod darpariaethau ar gyfer trosglwyddo rhywogaethau newydd sy'n cael eu hystyried yn "anifeiliaid", ac felly'n dod o dan y ddeddfwriaeth hon.

Mewn deddfwriaeth bosibl yn y dyfodol, rhaid i unrhyw un sy'n cyflawni gweithgareddau milfeddygol neu ofal iechyd anifeiliaid ar unrhyw 'anifeiliaid' feddu ar drwydded i ymarfer. Bydd cynnal gweithgareddau milfeddygol neu ofal iechyd anifeiliaid heb drwydded i ymarfer yn drosedd. Mae'n bwysig bod y diffiniad yn cwmpasu'r gweithgareddau a gyflawnir ar hyn o bryd gan weithwyr milfeddygol cofrestredig. Rhaid iddo hefyd fod yn ddigon eang i gyd-fynd â'r gweithgareddau a wneir gan lawer o AVPs. Byddwn yn penderfynu ar y diffiniad manwl cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd. Mae'n debyg y bydd yn rhoi'r gallu i'r rheoleiddiwr reoleiddio 'gweithgareddau gofal iechyd milfeddygol ac anifeiliaid', a allai gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- archwilio a gwneud diagnosis o glefydau, anafiadau, anhwylderau neu annormaleddau mewn anifeiliaid, gan gynnwys cyflawni neu ddehongli profion diagnostig
- darparu cyngor, argymhellion neu gynlluniau gofal yn seiliedig ar asesiad neu ddiagnosis, gan alluogi cyfleoedd i berchnogion a gofalwyr barhau â gofal
- triniaeth feddygol, llawfeddygol a therapiwtig i anifeiliaid – mae hyn yn cynnwys ymyriadau cywirol, adsefydlol, cefnogol a chynhaliol
- cyflawni llawdriniaethau, gan gynnwys anesthesia
- gweithgareddau rheoleiddio fel ardystio milfeddygol a rheolaethau swyddogol

**Mathau o drwydded i ymarfer**

Er mwyn cynnal hyblygrwydd i weithwyr milfeddygol proffesiynol a'r rheoleiddiwr, bydd opsiynau ar gyfer gwahanol fathau o drwyddedau yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Trwydded gynhwysfawr i ymarfer lle mae person yn gymwys ac wedi'i drwyddedu i gwblhau unrhyw weithgareddau a ganiateir gan ei broffesiwn.

Trwydded amodol i ymarfer lle nad yw rhywun yn gymwys i gael trwydded gynhwysfawr i ymarfer ond yn dal i allu ymarfer o dan rai amodau. Ni fydd y defnyddiau posibl ar gyfer hyn yn cael eu rhestru mewn deddfwriaeth sylfaenol a cyfrifoldeb y rheoleiddiwr fyddai eu gweithredu.

Gallai'r rhain gynnwys:

- anabledd – os nad yw rhywun yn gallu bodloni'r holl 'Gymwyseddau Diwrnod Un' hyd yn oed gydag addasiadau rhesymol ar waith yn ystod y cyfnod addysg neu arholiad, gellid darparu trwydded amodol – mae hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yn galluogi cyfranogiad eang o fewn y proffesiynau
- addasrwydd i ymarfer – lle codir pryderon ynghylch addasrwydd person i ymarfer, gall y rheoleiddiwr drefnu i amodau gael eu gosod ar ei drwydded
- cyfyngedig o ran amser – a ddefnyddir pan fo angen i rywun feddu ar drwydded am gyfnod byr yn unig
- amodau trwydded newydd – a ddefnyddir i sicrhau cymhwysedd y rhai sydd naill ai'n newydd i'r gofrestr neu ar gyfer rhywun sydd wedi dychwelyd i ymarfer yn ddiweddar ar ôl 5 mlynedd neu fwy i ffwrdd
- trefniadau pontio – a ddefnyddir i alluogi ymsefydlu proffesiynau yn esmwyth o dan reoliadau statudol, naill ai oherwydd eu bod yn ymgymryd â gweithgareddau milfeddygol neu ofal iechyd anifeiliaid, neu os oes diweddariad i'r diffiniad o 'anifail'
- trwydded i ymarfer dros dro ac amodol - a ddefnyddir i rywun allu ymarfer o dan rai amodau am gyfnod cyfyngedig o amser, er enghraifft, ar gyfer senarios lle mae achosion o glefyd

**Cael a chadw trwydded i ymarfer**

I gael trwydded i ymarfer, byddai angen i unigolyn:

- meddu ar gymhwyster cymwys a bodloni'r Cymwyseddau Diwrnod Un – mae'r rheoleiddiwr yn pennu'r cymwyseddau
- dangos eu bod yn addas i ymarfer drwy hunan-ddatgan sgiliau, gwybodaeth, cymeriad ac iechyd – gall y cam hwn gynnwys gwiriad DBS a gall y rheoleiddiwr ofyn am wybodaeth ychwanegol os oes angen
- bod â lefel addas o Saesneg – mae'r rheoleiddiwr yn pennu'r lefel sy'n ofynnol a thybir mai Saesneg yw ei iaith frodorol neu iaith ei gymhwyster
- talu ffioedd – mae'r rheoleiddiwr yn pennu'r rhain a byddant yn wahanol ar gyfer pob proffesiwn

Byddai gan y rheoleiddiwr y pŵer i bennu'r safonau sy'n ymwneud â thrwyddedu, adnewyddu ac ail-ddilysu. Bydd yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer pob un o'r proffesiynau.

Rydym yn cytuno â'r CMA y byddai angen adnewyddu'r drwydded hon yn flynyddol, gydag ail-ddilysu ychwanegol ar gyfnodau eraill. Gallai'r gofynion ar gyfer gweithiwr proffesiynol gynnwys:

- cadarnhau eu bod yn addas i ymarfer – mae angen i weithwyr proffesiynol gadarnhau bod eu sgiliau, eu gwybodaeth, eu cymeriad a'u hiechyd yn alinio â gofynion y rheoleiddiwr
- datgan unrhyw euogfarnau troseddol neu rybuddion – ni fydd derbyn euogfarn neu rybudd yn golygu'n awtomatig na ellir adnewyddu neu ail-ddilysu'r drwydded ac efallai y bydd angen asesiad o addasrwydd y person i ymarfer
- talu ffioedd – bydd angen i weithwyr proffesiynol dalu eu ffi flynyddol i'r rheoleiddiwr gan ddatgan cwblhau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Bydd gan bob proffesiwn ofyniad DPP gwahanol ar gyfer faint o DPP sydd angen ei gwblhau. Bydd angen i weithwyr proffesiynol gyflwyno tystiolaeth o hyn er mwyn adnewyddu ac ail-ddilysu'r drwydded

Byddai troseddau gwahardd awtomatig. Mae hyn yn golygu os bydd rhywun yn cael ei euogfarnu o drosedd benodol, byddai'n cael ei wahardd yn awtomatig rhag cael trwydded i ymarfer. Os oes gan y gweithiwr proffesiynol hwnnw drwydded i ymarfer eisoes, bydd yn ei cholli ar ôl cael euogfarn. Byddai'r rhestr hon yn ôl disgresiwn y rheoleiddiwr, ond byddai angen iddi alinio â safonau DBS. Felly mae'n debygol y byddai'n cynnwys troseddau difrifol fel llofruddiaeth, troseddau rhywiol, troseddau caethwasiaeth fodern, terfysgaeth, troseddau difrifol sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid, a masnachu cyffuriau neu bobl.

Os nad yw gweithiwr proffesiynol trwyddedig yn dymuno ymarfer mwyach, gall ddirymu ei drwydded ar unrhyw adeg. Yr eithriad yw pan fydd rhywun yng nghanol ymchwiliad addasrwydd i ymarfer gweithredol lle mae angen caniatâd arbennig. Fel arall, gall ddewis peidio â'i adnewyddu neu ei ail-ddilysu. Gall y rheoleiddiwr gadw manylion y rhai sydd wedi meddu ar drwydded i ymarfer yn flaenorol, yn amodol ar ei ofynion cadw data o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Byddai hyn yn galluogi proses llyfnach i'r rhai sydd wedi cael seibiant i adennill eu trwydded i ymarfer.

**Y tîm milfeddygol**

Bydd ehangu rheoleiddio i'r tîm milfeddygol ehangach yn golygu y bydd angen i bob gweithiwr milfeddygol proffesiynol gael trwydded er mwyn gallu ymarfer.

Rydym yn cytuno â'r argymhelliad gan y CMA y dylid diogelu'r teitl 'nyrs filfeddygol'. Dylid hefyd ehangu cwmpas y tasgau y gall nyrsys milfeddygol eu cyflawni. Rydym hefyd yn cynnig y dylai hyn fod yr un peth ar gyfer AVPs. Bydd deddfwriaeth newydd yn diddymu'r FRA, gan ddiddymu'r Cyngor Cofrestru Ffarieriaid (FRC). Bydd hyn yn galluogi rheoleiddio ffarieriaid yng Ngogledd Iwerddon, yn ogystal â rheoleiddio trinwyr troednoeth ceffylau

ledled y DU. Bydd proses i sicrhau y bydd pawb sy'n cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd yn cael eu trosglwyddo i'r system newydd gyda'r aflonyddwch lleiaf posibl.

*“Byddai diogelu'r teitl nid yn unig yn galluogi atebolrwydd gwell, ond hefyd yn sicrhau bod safonau gofal a lles anifeiliaid ar y lefel uchaf posibl.”*

- ymateb i'r ymgynghoriad

Byddai deddfwriaeth sylfaenol yn rhoi'r pwerau i ychwanegu teitlau newydd at y rhestr warchodedig drwy is-ddeddfwriaeth. Byddai ymgynghori â'r proffesiynau hynny'n digwydd drwy'r rheoleiddiwr cyn gosod unrhyw is-ddeddfwriaeth. Bydd Defra yn parhau i weithio gyda'r rheoleiddiwr i gefnogi datblygiad y gwahanol ofynion addysgol ac addasrwydd i ymarfer ar gyfer yr holl AVPs posibl. Byddwn hefyd yn sicrhau bod lleisiau’r proffesiynau hynny’n cael eu hystyried yn y trafodaethau hyn. Rydym yn cynnig gweithredu rheoleiddio mewn cyfrannau i sicrhau trawsnewid diogel a threfnus. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i ddatblygu safonau penodol i'r proffesiwn, gofynion addysg ac addasrwydd i ymarfer, a threfniadau trosglwyddo priodol.

Y proffesiynau cyntaf i'w rheoleiddio fydd:

- milfeddyg
- nyrs filfeddygol
- ffarier

Bydd y gyfran nesaf yn cynnwys:

- ffisiotherapydd anifeiliaid neu filfeddygol
- osteopath anifeiliaid neu filfeddygol
- ceiropractydd anifeiliaid neu filfeddygol
- technegydd deintyddol ceffylau
- triniwr carnau gwartheg
- triniwr troednoeth ceffylau

AVPs pellach posibl ar gyfer rheoleiddio:

- technegydd milfeddygol
- ymddygiadwr anifeiliaid neu filfeddygol

Bydd angen rheoli’r broses o drawsnewid proffesiynau nad oes ganddynt unrhyw reoleiddio statudol ar hyn o bryd er mwyn:

- sicrhau nad oes bwlch yn y ddarpariaeth gofal
- sicrhau nad yw gweithwyr proffesiynol unigol yn cael eu heffeithio'n anuniongyrchol

Bydd amser arweiniol priodol cyn i'r rheoliad ddod i rym, gan ganiatáu i unigolion sicrhau y gallant fodloni'r gofynion. Gellid defnyddio trwyddedau amodol yma.

Nid yw manylu ar weithgareddau penodol y gall gwahanol weithwyr proffesiynol eu cwblhau mewn deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei ystyried yn arfer gorau mwyach. Yn hytrach, byddwn yn grymuso'r rheoleiddiwr i bennu, adolygu'n rheolaidd a diweddaru canllawiau ar ba weithgareddau y gall yr holl wahanol broffesiynau y maent yn eu rheoleiddio eu cwblhau. Bydd hyn yn:

- cynyddu capasiti o fewn y sector milfeddygol
- sicrhau bod sgiliau'n cael eu defnyddio'n llawn
- rhoi eglurder i'r cyhoedd a'r proffesiwn ehangach ynghylch pwy sydd â thrwydded i gwblhau pa dasgau

Bydd hyn i gyd yn cefnogi adeiladu sector milfeddygol ffyniannus.

**Eithriadau**

Er mwyn cynnal hyblygrwydd a pharhau i gefnogi ymdrechion bioddiogelwch y llywodraeth, byddai'r eithriadau presennol yn parhau i fod ar waith. Bydd hyn yn galluogi pobl lleyg (y rhai nad oes ganddynt drwydded i ymarfer) i gyflawni rhai gweithredoedd, megis:

- triniaethau meddygol bach a gwblhawyd gan berchnogion, ceidwaid, neu weithwyr
- llawdriniaeth fach anfewnwthiol a gwblhawyd gan ffermwyr
- brechu dofednod
- gweithrediadau dofednod ac adar, fel tocio pigau, tynnu crib, tynnu snwd
- samplu gwaed at ddibenion diagnostig neu reoli clefydau

Byddai caniatâd i bobl leyg farcio a brechu moch daear ar gyfer twbercwlosis buchol yn cael ei ehangu i gynnwys Gogledd Iwerddon yn ogystal â Lloegr, yr Alban a Chymru.

Bydd cyfleoedd i ychwanegu eithriadau ychwanegol yn y dyfodol trwy Orchymyn, lle bo angen.

**Addasrwydd i ymarfer**

O dan ddeddfwriaeth newydd, byddwn yn cyflwyno system addasrwydd i ymarfer newydd i ddisodli'r prosesau disgyblu presennol. Bydd hyn yn helpu i gynnal safonau uchel y proffesiwn, wrth gefnogi gweithwyr proffesiynol unigol.

*"Mae [diwygio addasrwydd i ymarfer] yn mynd law yn llaw â diwygiadau trwyddedu ac mae'n hanfodol."*

- ymateb i'r ymgynghoriad

Byddwn yn dylunio pob cam o'r broses newydd i ymchwilio a phenderfynu a yw gweithiwr proffesiynol wedi'i amharu ar hyn o bryd mewn ffordd sy'n ei wneud yn anaddas i ymarfer.

Byddai'r rheoleiddiwr yn datblygu polisi a chanllawiau ynghylch sut y bydd yn cymhwyso'r diffiniad o 'amhariad cyfredol'. Yn fras, bydd hyn yn edrych ar y risgiau presennol i'r cyhoedd, anifeiliaid, ac enw da'r proffesiynau, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar gamymddwyn yn y gorffennol.

Pan fydd y rheoleiddiwr yn dod yn ymwybodol o bryder, dylai gynnal asesiad cychwynnol o'r achos. Dylai staff a gyflogir gan y rheoleiddiwr adolygu'r achos i hidlo allan unrhyw achosion amhriodol neu flinderus.

Yna dylai'r rheoleiddiwr benodi archwilwyr achosion. Dylai fod o leiaf 2 berson (un person lleyg ac un o'r un proffesiwn â'r gweithiwr proffesiynol sy'n cael ei asesu) i adolygu pob achos.

Byddai'r rheoleiddiwr yn pennu'r meini prawf ar gyfer pryd y byddai angen trydydd archwiliwr. Mae'n debyg y byddai'n cynnwys lle mae angen gwybodaeth arbenigol, naill ai gan weithiwr milfeddygol penodol, gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, neu weithiwr cyfreithiol proffesiynol. Gallent hefyd ddefnyddio trydydd archwiliwr achosion i sicrhau nad oes unrhyw bryderon ynghylch gwrthdaro buddiannau. Mae hyn yn arbennig o fuddiol mewn proffesiynau llai lle mae'n bosibl y bydd yr archwiliwr achosion a'r gweithiwr proffesiynol trwyddedig yn adnabod ei gilydd

Gall archwilwyr achosion gytuno ar sancsiynau a chamau gweithredu gyda'r gweithiwr proffesiynol.

Gall y rheoleiddiwr atgyfeirio'r achos at dribiwnlys:

- os nad oes cytundeb wedi'i wneud ar gamau gweithredu neu sancsiwn (neu'r ddau), ond ei fod yn dal i gredu bod gan y gweithiwr proffesiynol 'amhariad cyfredol'
- bydd y tribiwnlys (o dri o bobl) yn archwilio'r achos, a gall osod sancsiynau os yw'n cytuno bod y gweithiwr proffesiynol wedi'i amharu ar hyn o bryd
- gall y tribiwnlys osod sancsiynau neu gamau gweithredu (neu'r ddau) ar y gweithiwr proffesiynol heb yr angen am gytundeb

O fewn pob un o'r camau hyn, gellid cau'r achos os nad oes fawr o obaith o brofi bod addasrwydd rhywun i ymarfer wedi'i amharu. Yn yr achos hwn, ni fyddai'r achos yn symud ymlaen i'r cam nesaf wedyn. Bydd gwybodaeth a fydd ar gael i'r rheoleiddiwr ar hyn o bryd yn cynnwys:

- adroddiad asesu, o asesiad iechyd a gynhaliwyd gan arbenigwr annibynnol
- llythyr gan ei feddyg sy'n cynnwys gwybodaeth iechyd berthnasol neu asesiad o'i allu i weithio (neu'r ddau)
- agweddau perthnasol ar gofnodion meddygol y gweithiwr proffesiynol

Dim ond os yw'r gweithiwr proffesiynol yn rhoi caniatâd y caiff cofnodion meddygol eu rhannu. Bydd angen dealltwriaeth, fodd bynnag, y gallai methu â chydsynio i hyn arwain at asesiad anghyflawn o'u hamhariad presennol. Gallai hyn arwain at sancsiynau llymach gan y rheoleiddiwr i liniaru'n llawn y risg o bethau nad ydynt wedi gallu eu hasesu'n llawn.

Efallai y bydd y rheoleiddiwr yn gallu gofyn am wybodaeth ychwanegol, megis:

- tystiolaethau gan gydweithwyr, cleientiaid a gweithwyr proffesiynol
- dogfennaeth gan eu cyflogwr presennol a blaenorol

Bydd yr holl wybodaeth a gesglir ac a asesir yn cael ei gwneud yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Lle mae risg wirioneddol o niwed i'r cyhoedd, defnyddwyr, anifeiliaid, neu ymddiriedaeth yn y proffesiynau, bydd gan y rheoleiddiwr y pŵer i osod gorchmynion dros dro ar weithiwr proffesiynol. Byddai hyn yn gosod amodau ar drwydded y person neu'n ei atal rhag ymarfer yn gyfan gwbl tra bod y broses addasrwydd i ymarfer yn cael ei chwblhau. Byddai gorchmynion dros dro wedi'u cyfyngu o ran amser i uchafswm o 18 mis a'u hadolygu'n rheolaidd i weld a oes eu hangen o hyd. Os bydd yr ymchwiliad addasrwydd i ymarfer yn cymryd mwy o amser na'r gorchymyn dros dro, byddai angen cymeradwyo estyniadau i'r gorchymyn dros dro gan yr Uchel Lys.

> *“Mae gan weithwyr milfeddygol proffesiynol gyfrifoldeb enfawr i’r cyhoedd o ran cynnal lles anifeiliaid, iechyd anifeiliaid, iechyd y cyhoedd (Un Iechyd), ac felly dylent fod yn addas i ymarfer. Dylent gynnal safonau proffesiynol a pheidio â dwyn anfri ar enw’r proffesiwn.”*
>
> \- ymateb i'r ymgynghoriad

Bydd ystod gynyddol o sancsiynau ar gael i'r rheoleiddiwr. Rydym yn cytuno ag argymhellion y CMA, y bydd y rhain yn cynnwys:

- cyngor neu rybuddion ffurfiol – byddai hyn yn cael ei nodi ar achos y person rhag ofn y bydd pryderon yn y dyfodol
- ymrwymiadau – addewid ffurfiol gan y gweithiwr proffesiynol i naill ai wneud rhywbeth neu beidio â gwneud rhywbeth
- amodau ar y drwydded megis goruchwylio neu beidio â gwneud gweithgareddau penodol
- atal y drwydded am hyd at 5 mlynedd
- dileu’r drwydded – byddai angen wedyn i’r gweithiwr proffesiynol brofi ei fod yn addas i ymarfer i’r rheoleiddiwr

Ar ôl 5 mlynedd gall y gweithiwr proffesiynol wneud cais i'r rheoleiddiwr i ystyried adennill trwydded.

Dileu gwirfoddol yw pan fydd y rheoleiddiwr a'r gweithiwr proffesiynol, ar ôl i broses addasrwydd i ymarfer ddechrau, yn cytuno i ddileu'r drwydded i ymarfer yn hytrach na chwblhau'r broses addasrwydd i ymarfer. Byddai hyn dim ond yn cael ei ganiatáu lle mae'r gweithiwr proffesiynol trwyddedig:

- yn annhebygol iawn i ddychwelyd i ymarfer byth
- bydd rhoi'r gorau i ymarfer yn hytrach na mynd trwy'r broses addasrwydd i ymarfer lawn yn bodloni budd y cyhoedd

*"Rwy'n cefnogi'n benodol ystod ehangach o ganlyniadau megis ymrwymiadau ac amodau, gan gynnwys gofynion ar gyfer DPP wedi'i dargedu, ymarfer myfyriol, a – lle bo'n berthnasol – goruchwyliaeth/ymgynghori ar achosion neu gyfyngiadau o waith risg uwch, er mwyn diogelu lles anifeiliaid, diogelwch y cyhoedd a diogelu."*

\- ymateb i'r ymgynghoriad

Byddai methu â glynu wrth naill ai sancsiynau y cytunwyd arnynt neu sancsiynau a orfodwyd yn ail-sbarduno ymchwiliad addasrwydd i ymarfer a gallai effeithio ar ba sancsiynau sydd ar gael yn y dyfodol.

## Canlyniadau

Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i rannu eu barn ar benodau Trwydded i Ymarfer ac Addasrwydd i Ymarfer yr ymgynghoriad. Mae penderfyniadau polisi yn y meysydd hyn wedi'u llywio gan ymatebion i ymgynghoriadau, argymhellion y CMA, ac arfer gorau ar draws rheoleiddio proffesiynau eraill.

Bydd cyflwyno trwydded gynhwysfawr i ymarfer, ochr yn ochr â diwygio'r fframwaith addasrwydd i ymarfer, yn darparu sylfaen gryfach ar gyfer sector milfeddygol modern a ffyniannus.

Bydd y diwygiadau hyn yn:

- cryfhau iechyd a lles anifeiliaid
- diogelu defnyddwyr
- cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd drwy sicrhau safonau proffesiynol uchel a phrosesau addasrwydd i ymarfer clir a chymesur

Mae hyn yn golygu mai dim ond y rhai sy'n gymwys ac yn addas i ymarfer all weithio yn y sector. Yn hollbwysig, bydd diwygio rheoleiddio gweithwyr milfeddygol proffesiynol hefyd yn grymuso'r gweithlu milfeddygol drwy:

- cydnabod y tîm milfeddygol llawn
- diogelu teitlau proffesiynol

- ehangu cwmpas lle bo'n briodol
- galluogi gweithwyr proffesiynol i weithio hyd eithaf eu cymhwysedd o fewn fframwaith clir a dibynadwy

Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn hanfodol i gefnogi sector milfeddygol sy'n parhau i wasanaethu anifeiliaid, y cyhoedd, a'r economi ehangach gyda hyder.

Mae'r sector milfeddygol wedi esblygu ers i'r VSA ennill Cydsyniad Brenhinol ym 1966, gyda nifer o broffesiynau bellach yn rhan o'r broses o ddarparu gofal cynhwysfawr i anifeiliaid. Bydd cydnabod a rheoleiddio’r holl broffesiynau hyn yn llawn yn caniatáu mwy o ddefnydd o’r tîm milfeddygol cyfan ac estyniad o gyfleoedd gyrfa y tu hwnt i’r hyn sy’n bosibl ar hyn o bryd. Bydd chwalu'r rhwystrau hyn i gyfleoedd yn cryfhau'r gweithlu milfeddygol, yn cefnogi lles anifeiliaid, ac yn helpu i dyfu'r economi. Bydd hyn i gyd yn dda i berchnogion anifeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau milfeddygol.

# Rheoleiddio busnesau milfeddygol neu ofal iechyd anifeiliaid

Mae gwasanaethau milfeddygol yn rhan hanfodol a chynyddol o economi'r DU, gan gyfrannu £6.7 biliwn yn 2024 yn unig. Felly, mae'n bwysig sicrhau bod busnesau'n cael eu rheoleiddio'n briodol i gynnal safonau i sicrhau iechyd a lles anifeiliaid a chefnogi twf economaidd.

Daeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) i'r casgliad nad yw strwythur presennol y farchnad ar gyfer gwasanaethau milfeddygol ar gyfer anifeiliaid anwes yn gweithredu'n effeithiol a'i fod wedi arwain at niwed sylweddol i ddefnyddwyr. Lle nad yw marchnadoedd yn gweithredu'n dda, mae defnyddwyr yn cael eu gadael heb y wybodaeth, y dewis na'r amddiffyniadau sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae mynd i'r afael â'r materion hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag ymrwymiad y llywodraeth hon i fynd i'r afael â chostau byw.

## Yr angen am ddiwygio deddfwriaethol

Pan ddaeth y VSA i rym ym 1966, dim ond milfeddygon a allai fod yn berchen ar bractis milfeddygol. Mae'r sector wedi esblygu ers hynny, bron y tu hwnt i adnabyddiaeth. Mae perchnogaeth ar bractis milfeddygol gan bobl nad ydynt yn filfeddygon wedi'i ganiatáu ers 1999. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y practisau sy'n eiddo i gorfforaethau wedi codi, o 10% yn 2013 i tua 60% heddiw, gyda llawer o'r rhain yn eiddo i 6 grŵp milfeddygol mawr. Mae'r cynnydd hwn mewn corfforaetholeiddio wedi cyd-daro â phrisiau uwch, gyda phrisiau cyfartalog yn tyfu 63% a chost gyfartalog triniaethau yn tyfu 53% rhwng 2016 a 2023. Mae hyn o'i gymharu â chwyddiant gwasanaethau cyffredinol o 32% (CMA, 2026, adran 2.21(g)). Nid yw'r newid strwythurol hwn wedi dod ynghyd â diweddariad cyfatebol i'r fframwaith rheoleiddio sy'n llywodraethu busnesau. Er bod llawer o bractisau'n perthyn i Gynllun Safonau Ymarfer (PSS) yr RCVS, sy'n cynnig achrediad yn erbyn llawer o safonau clinigol, nid yw hyn yr un peth â rheoleiddio busnesau'n llawn.

Ar hyn o bryd, mae mecanweithiau cyfyngedig i gefnogi cystadleuaeth effeithiol. Nid yw hyn yn broblem yn ei hanfod os yw'r farchnad yn gweithredu'n dda. Lle nad yw marchnad yn gweithredu'n dda, ni chaiff cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw ei gyflawni. Gall hyn arwain at broblemau gwirioneddol i ddefnyddwyr a dyma’r sefyllfa yn y sector milfeddygol. Mae'r CMA wedi nodi bod y strwythurau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y sector yn arwain at effaith andwyol ar gystadleuaeth o fewn y farchnad filfeddygol ar gyfer anifeiliaid anwes. Mae hyn wedi arwain at orwariant o tua £1 biliwn dros 5 mlynedd o fewn marchnad o £6.7 biliwn (CMA, 2026, tabl 15.1). Ni fyddem yn disgwyl gweld hyn mewn marchnad sy'n gweithredu'n iawn. Mae'r llywodraeth hon wedi addo mynd i'r afael â chostau byw i ddefnyddwyr, ac mae'r sector milfeddygol yn gyfle perffaith i ddangos hyn.

Mae'r CMA wedi cynnig sawl gorchymyn a fydd yn gosod gofynion ar unwaith ar fusnesau i ddechrau mynd i'r afael â'r pryderon am gystadleuaeth. Mae angen deddfwriaeth newydd

i reoleiddio busnesau er mwyn parhau â'r gofynion hyn ar gyfer busnesau, yn ogystal â chaniatáu hyblygrwydd i fynd i'r afael â phryderon cystadleuaeth yn y dyfodol.

## Dull polisi

Ar ôl adolygu manylion yr argymhellion gan y CMA a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, byddwn yn cyflwyno rheoleiddio busnesau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid. Mae manylion llawn i'w gweld yn Atodiad I ac ar ein gwefan yr ymgynghoriad yma. Mae gwybodaeth am elfennau a fydd mewn deddfwriaeth sylfaenol, y manylir arnynt ymhellach mewn is-ddeddfwriaeth, neu'n cael eu penderfynu gan y rheoleiddiwr yn Atodiad II.

O dan ddeddfwriaeth arfaethedig newydd, byddai'n ofynnol i fusnes sy'n gweithredu yn y sector milfeddygol neu ofal iechyd anifeiliaid feddu ar drwydded er mwyn gweithredu. Yn debyg iawn i reoleiddio gweithwyr proffesiynol unigol, bydd gweithredu system drwyddedu ar gyfer busnesau yn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

Byddai cyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer busnesau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid yn darparu sylfaen gref ar gyfer sector cynaliadwy, ffyniannus. Byddai trwyddedu yn sicrhau bod pob busnes yn bodloni safonau clir a chyson ar draws llywodraethiant clinigol, iechyd a diogelwch, a chystadleuaeth, gan gefnogi ymarfer o ansawdd uchel ac uniondeb proffesiynol. Byddai'r rhain yn cefnogi gweithwyr milfeddygol proffesiynol i arfer eu barn glinigol er budd gorau iechyd a lles anifeiliaid, yn rhydd rhag pwysau masnachol a allai fod yn gwrthdaro. Cafodd cynigion ar gyfer cyflwyno rheoleiddio ar gyfer busnesau gefnogaeth gref yn yr ymgynghoriad, yn ogystal â bod yn faes ffocws allweddol i'r CMA yn eu hargymhellion i'r llywodraeth.

> *"Rwy'n credu y byddai'r rheoliadau arfaethedig yn gyflwyniad cadarnhaol i'r proffesiwn i sicrhau bod pob safle yn gweithio o fewn y gyfraith, gyda budd gorau'r anifail a'r cleient wrth ei wraidd."*
>
> - ymateb i'r ymgynghoriad

Wrth gael system drwyddedu, mae'n bwysig ei bod hi'n glir pwy sy'n gyfrifol am gynnal y safonau gofynnol. Mae'n bwysig bod safonau sy'n ymwneud â lles anifeiliaid yn cael eu hystyried, eu monitro a'u gweithredu gan rywun sy'n gymwys i wneud hynny. Yn yr achos hwn, milfeddyg proffesiynol trwyddedig (perthynol). Mae'n bwysig bod lles anifeiliaid a defnyddwyr yn cael eu cofio wrth wneud penderfyniadau busnes. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynnig i gyflwyno person cyfrifol a enwir, a gafodd gefnogaeth dda.

Mae archwiliadau a'r gallu i gasglu gwybodaeth yn rhan sylfaenol o unrhyw raglen drwyddedu. Bydd galluogi archwiliadau yn cynyddu hyder defnyddwyr yn y rheoleiddiwr a'r busnesau sy'n darparu gwasanaethau milfeddygol neu ofal iechyd anifeiliaid (neu'r ddau). Mae'r rhain hefyd yn bwysig ar gyfer cynnal lles anifeiliaid, gan eu bod yn galluogi'r

rheoleiddiwr i weld y lleoliadau lle mae anifeiliaid yn cael eu trin a sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Amlygwyd pwysigrwydd hyn gan y CMA ac yn ystod yr ymgynghoriad.

Rydym yn cytuno â'r CMA y dylai rheoleiddio busnesau fod yn seiliedig ar ganlyniadau i raddau helaeth. Rydym felly yn cynnig y dylai rheoleiddio busnesau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid fod yn seiliedig ar ganlyniadau yn bennaf, yn hytrach na bod yn rhagnodol iawn. Byddai hyn yn caniatáu hyblygrwydd i fusnesau o ran sut maen nhw'n bodloni safonau rheoleiddio. Byddai hefyd yn galluogi'r rheoleiddiwr i gymhwyso dull sy'n seiliedig ar reolau mewn meysydd penodol lle mae hynny'n angenrheidiol. Er enghraifft, i helpu i ddiogelu lles anifeiliaid, defnyddwyr neu gystadleuaeth deg.

Mae rhedeg busnes milfeddygol neu ofal iechyd anifeiliaid yn fraint sy'n cario cyfrifoldeb enfawr y dylid ei gymryd o ddifrif. Felly, mae'n deg bod gan y rheoleiddiwr y gallu i gymryd camau os nad yw sefydliadau'n cynnal y safonau y dylent eu cynnal. Fel gyda rheoleiddio gweithwyr proffesiynol unigol, dylai fod nod o ddatrys problemau mewn ffordd adeiladol, gyda'r rheoleiddiwr yn darparu cefnogaeth lle nad yw safonau'n cael eu bodloni. Os, fodd bynnag, mae'r risg mor fawr neu os nad oes cydweithrediad gan y busnes, mae angen i'r rheoleiddiwr allu ymyrryd. Bydd hyn yn gwella lles anifeiliaid a hyder defnyddwyr drwy sicrhau bod pryderon ynghylch safonau yn cael eu trin yn briodol ac yn amserol.

> *“Gyda chymesuredd a hyblygrwydd priodol, gallai rheoleiddio busnesau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid gryfhau safonau wrth gefnogi gweithlu amrywiol a chynaliadwy.”*
>
> - ymateb i'r ymgynghoriad

Gyda'i gilydd, byddai'r mesurau hyn yn cefnogi gweithwyr milfeddygol proffesiynol i ffynnu, cynnal lles anifeiliaid, diogelu defnyddwyr, a galluogi'r sector i barhau i wneud cyfraniad cryf at dwf economaidd.

## Penderfyniadau polisi

### Trwyddedu busnesau

Mewn deddfwriaeth newydd, byddwn yn diffinio busnes milfeddygol neu ofal iechyd anifeiliaid fel sefydliad sy'n cynnal *gweithgareddau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid*, fel y'i diffinnir yn y bennod “Rheoleiddio Gweithwyr Proffesiynol”. Bydd hyn yn galluogi bod yn hyblyg ynghylch y diffiniad yn y dyfodol, os oes angen, i gynnwys modelau busnes newydd, fel telefeddygaeth. Mae'r term "busnesau" yn cynnwys y lleoliadau unigol a swyddogaeth fusnes ganolog, os oes un yn bodoli.

Mae yna lawer o fathau o fusnesau a fydd yn dod o dan y rheoliad hwn, o grwpiau corfforaethol mawr sy'n gweithredu sawl lleoliad, i bractisau annibynnol, a masnachwyr unigol. Bydd eithriadau penodol ar gyfer busnesau sy'n cael eu rheoleiddio mewn

gwahanol ffyrdd, fel Gwasanaethau Milfeddygol y Llywodraeth sy'n cael eu hindemnio gan y Goron. Nid yw fferyllfeydd a busnesau a redir gan Bersonau â Chymwysterau Addas (SQPs) wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn, gan eu bod yn cael eu goruchwylio gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol.

Rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau bod gofynion yn gymesur â'r risg bosibl a allai ddeillio o bob math o fusnes. Felly, bydd y safonau sy'n ofynnol ar gyfer pob busnes yr un fath, ond bydd y broses archwilio yn amrywio yn seiliedig ar faint a math y busnes.

Yn fras, bydd cwmpas yr hyn y bydd y rheoleiddiwr yn chwilio amdano fel a ganlyn:

- sicrhau safonau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid boddhaol
- iechyd a diogelwch dynol
- sicrhau bod staff wedi'u cymhwyso'n addas, wedi'u trwyddedu a'u hyfforddi'n ddigonol
- llywodraethiant da, cadw cofnodion a data ac aliniad â gofynion proffesiynol a chyfreithiol
- amgylchedd gwaith ffisegol diogel a phriodol, gan gynnwys offer a chyfleusterau
- sicrhau bod polisïau'n alinio â buddiannau defnyddwyr, yn ogystal â'u hanifeiliaid

Mater i'r rheoleiddiwr fydd penderfynu ar fanylion sut mae'r safonau hynny'n cael eu cymhwyso. Bydd y rheoleiddiwr yn darparu canllawiau ar sut y dylid gweithredu'r safonau hyn, gyda hyblygrwydd i'w cymhwyso ar gyfer gwahanol fathau o fusnesau. Bydd cymhwyso'r uchod, drwy reolau a chanllawiau rheoleiddio, hefyd yn cael ei alinio â'r Gorchmynion y bydd y CMA yn eu cyflwyno. Mae hyn yn cynnwys darparu amcangyfrifon ysgrifenedig ar gyfer triniaethau, tryloywder perchnogaeth, a gofyniad i rannu data gyda'r rheoleiddiwr.

I gael trwydded byddai angen i bob busnes:

- cofrestru gyda'r rheoleiddiwr
- talu ei ffi drwyddedu i'r rheoleiddiwr
- enwi deiliad y drwydded neu berchennog y busnes
- enwi'r 'person cyfrifol a enwir' (os yw'n wahanol i ddeiliad y drwydded neu berchennog y busnes)
- hunan-ddatgan cydymffurfiaeth â'r safonau

Yn dibynnu ar y math o fusnes, a phroffil asesedig y math hwnnw o fusnes, efallai y bydd angen i rai busnesau hefyd:

- darparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth â'r safonau
- cael archwiliad

Lle mae gofynion busnes yn gorgyffwrdd â gofynion o dan reoliadau eraill, gellir defnyddio cymeradwyaeth gan reoleiddwyr eraill fel tystiolaeth, er mwyn osgoi dyblygu diangen.

Os bydd angen archwiliad cyn rhoi trwydded, gall y rheoleiddiwr roi trwydded dros dro. Bydd hyn er mwyn galluogi busnes a gofal anifeiliaid i barhau.

**Cyfrifoldeb**

Rydym yn cynnig y dylid cael trwydded o fewn pob busnes a pherson cyfrifol a enwir ym mhob lleoliad ac ar lefel y busnes. Gofynion y rolau hyn yw:

- bydd deiliad y drwydded yn gyfrifol yn y pen draw am gydymffurfio â safonau ar gyfer y busnes
- byddai gan y person cyfrifol a enwir ym mhob lleoliad gyfrifoldeb dros agweddau clinigol y safonau
- bydd gan y person cyfrifol a enwir ar lefel y busnes, os yw'n berthnasol, gyfrifoldeb am bennu safonau clinigol ar lefel gorfforaethol

Ar gyfer masnachwyr unigol, yr unigolyn fyddai deiliad y drwydded a'r person cyfrifol a enwir. Ar gyfer busnesau llai, gallai fod yr un person neu berson gwahanol. Felly, byddant yn gyfrifol am gynnal y safonau a ddisgwylir gan fusnesau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid.

Rhoddir i'r holl bersonau cyfrifol a enwir annibyniaeth a rheolaeth statudol (yn debyg i Swyddogion Diogelu Data) gan gynnwys diogelwch i'w diogelu rhag diswyddiad annheg neu driniaeth niweidiol.

Mae manylion cyfrifoldebau Deiliad y Drwydded a'r Person Cyfrifol a Enwir mewn gwahanol senarios wedi'u manylu isod:

- Byddai cyfrifoldebau deiliad trwydded fel a ganlyn:
  - iechyd a diogelwch dynol
  - sicrhau bod staff wedi'u cymhwyso'n addas, wedi'u trwyddedu a'u hyfforddi'n ddigonol
  - amgylchedd gwaith ffisegol diogel a phriodol (cyffredinol)
  - arweinyddiaeth a lles staff da
  - sicrhau bod polisïau'n alinio â buddiannau defnyddwyr, yn ogystal â'u hanifeiliaid
- Byddai cyfrifoldebau person cyfrifol a enwir fel a ganlyn:
  - iechyd a lles anifeiliaid
  - rheoli a defnyddio meddyginiaethau'n gyfrifol, os yw'n berthnasol
  - llywodraethiant da, cadw cofnodion a data ac aliniad â gofynion proffesiynol a chyfreithiol
  - amgylchedd gwaith ffisegol diogel a phriodol (offer a chyfleusterau)

**Archwiliadau**

Mae'r gallu i gynnal gwiriadau yn rhan hanfodol o lwyddiant unrhyw system reoleiddio. Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, ac yn unol ag argymhellion gan y CMA, bydd gan y rheoleiddiwr y pŵer i gynnal archwiliadau. Y categorïau archwilio fydd:

- arferol - byddai'r rhain yn cael eu cynnal naill ai cyn i fusnes a/neu leoliad gael trwydded neu ar amser penodol ar ôl yr archwiliad blaenorol
- yn seiliedig ar risg - bydd y rhain yn cael eu defnyddio lle mae asesiad risg yn penderfynu y gallai fod angen ymweliad
- dilynol - bydd y rhain yn cael eu defnyddio lle mae archwiliad blaenorol wedi tynnu sylw at bryderon
- ymweliadau gorfodi - bydd y rhain yn cael eu defnyddio pan fydd gan y rheoleiddiwr dystiolaeth o dorri'r safonau gofynnol a dim ond agweddau sy'n gysylltiedig â'r toriad posibl fydd yn cael eu hymchwilio

Bydd pwerau mynediad yn cyd-fynd â'r pŵer i'r rheoleiddiwr gynnal archwiliadau. Bydd yn drosedd i rywun wrthod mynediad i archwilwyr awdurdodedig i safle. Os gwrthodir mynediad dro ar ôl tro, byddai'r rheoleiddiwr yn gallu gwneud cais am warant gan Ynad (Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon) neu Ynad Heddwch (Yr Alban) i orfodi mynediad. Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig a phenodol y byddent yn caniatáu hyn.

Byddai angen rhoi rhybudd rhesymol i'r busnes neu'r lleoliad (neu'r ddau) cyn archwiliad, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol:

- lle byddai rhoi rhybudd yn groes i bwrpas yr ymweliad
- lle mae ymdrechion rhesymol i gytuno ar apwyntiad wedi methu
- mewn sefyllfa o argyfwng, lle byddai aros am y cyfnod rhybudd yn peryglu niwed difrifol i iechyd anifeiliaid neu'r cyhoedd

Byddai gan y rheoleiddiwr bwerau i gaffael gwybodaeth at ddibenion monitro cydymffurfiaeth, heb ymweld â'r safle. Byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth a gedwir y tu allan i leoliad penodol, er enghraifft mewn pencadlys, lle bo'n berthnasol. Byddai hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i berchnogion busnesau ddarparu gwybodaeth a dogfennau ac ateb cwestiynau rhesymol.

*“Os oes pryder rhaid bod y gallu i ymchwilio’n rhydd er mwyn diogelu lles anifeiliaid.”*

- ymateb i'r ymgynghoriad

Yn unol ag arfer gorau ar gyfer rheoleiddwyr busnesau eraill, byddai gan y rheoleiddiwr bwerau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'i bŵer i archwilio a'i bwerau mynediad:

- chwilio neu atafaelu

- arsylwi a gweld
- mynnu esboniadau
- ceisio neu ofyn am wybodaeth neu gofnodion
- cymryd copïau o ddogfennau
- sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau
- mynd â phobl ac offer i mewn i safle wrth arfer y pŵer mynediad
- archwilio neu brofi
- archwilio ac ymchwilio
- cyfarwyddo i beidio â tharfu ar safle
- cymryd mesuriadau
- tynnu lluniau a gwneud recordiadau
- cymryd samplau
- cymryd meddiant o sylweddau neu eitemau a geir a'u cadw

Byddai derbynneb o'r hyn a gymerwyd yn cael ei roi i ddeiliad y drwydded.

Bydd rhai busnesau'n gweithredu o annedd breifat. Ni fyddai disgwyl i'r lleoliadau hyn gael archwiliadau personol rheolaidd. Fodd bynnag, byddai'r rheoleiddiwr yn dal i allu gofyn am wybodaeth gan ddeiliad y drwydded neu berchennog y busnes (neu'r ddau). Os na fydd y wybodaeth honno ar gael, a bod asesiad risg yn nodi pryderon sylweddol, yna gellir ceisio gwarant i alluogi archwiliad personol.

Er mwyn i orfodi fod yn gymesur, ni fydd pob pŵer yn cael ei ystyried yn addas ym mhob amgylchiad. Er enghraifft, efallai y byddai pryderon defnyddwyr neu gystadleuaeth yn fwy addas ar gyfer ceisiadau am wybodaeth. Fel arall, gallai pryderon ynghylch diogelwch offer sy'n cael ei ddefnyddio fod yn fwy addas ar gyfer ymweliad ffisegol.

Fel gyda pennu ffioedd ar gyfer rheoleiddio busnes, y rheoleiddiwr fyddai'n gosod y ffioedd ar gyfer archwiliadau. Byddai'r rhain ar sail adennill costau.

Yn dilyn ymweliad archwilio, byddai adroddiad ysgrifenedig o'r archwiliad yn cael ei ddarparu i'r rheoleiddiwr. Byddai'r safle a'r busnes milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid (os yw'n rhan o grŵp) yn derbyn crynodeb. Byddai'n ofynnol i'r rheoleiddiwr gyhoeddi adroddiad archwilio ar-lein yn dangos a yw'r busnes yn cydymffurfio â'r safonau. Byddai'r adroddiad yn cynnwys unrhyw dorri rheolau bach, mawr a chritigol wedi'u nodi a'u hesbonio. Os yw'r adroddiad yn dangos bod y safle yn gweithredu o fewn y safonau, byddai'n cael ei drwyddedu.

Gallai'r cyhoedd neu weithwyr milfeddygol proffesiynol godi pryderon am fusnes.

Gellid defnyddio tystiolaeth a ddatgelir yn ystod archwiliadau ar hap arferol, yn seiliedig ar risg, ac archwiliadau dilynol fel tystiolaeth o ddiffygion gweithiwr proffesiynol trwyddedig unigol mewn archwiliad addasrwydd i ymarfer. Ni fydd hyn yn wir, fodd bynnag, yn ystod ymweliadau â gwarant.

Rhan bwysig o archwilio busnesau hefyd yw'r rhyngweithio â Rheoliadau Meddygaeth Filfeddygol 2013 fel y'u diwygiwyd (VMR). Cyfrifoldeb y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Filfeddygol (VMD) yw'r VMR. Ar hyn o bryd, mae busnesau sy'n rhan o PSS yr RCVS yn cael eu hasesu yn erbyn y VMR gan yr RCVS, ac mae pob practis milfeddygol arall yn cael ei archwilio gan y VMD. Bydd y gofyniad o dan VSA diwygiedig yn golygu y bydd angen trwyddedu ar bob busnes milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid. Fodd bynnag, mae angen ystyried sicrhau bod y VMD yn cynnal ei oruchwyliaeth o'r VMR, heb gynyddu'r baich archwilio ar fusnesau yn ddiangen.

**Sancsiynau a chosbau**

Os na ystyrir bod y busnes yn gweithredu o fewn y safonau gofynnol, bydd sawl opsiwn i'r rheoleiddiwr. Bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau a difrifoldeb y toriad.

Os nad oes risg uniongyrchol i iechyd a lles y cyhoedd neu anifeiliaid, bydd gan y rheoleiddiwr y pŵer i:

- rhoi cyngor ac arweiniad ar welliannau
- gosod dirwy am unrhyw ddiffygion yn y safonau
- cynnal archwiliadau ychwanegol
- cyhoeddi hysbysiad gwella i'r lleoliad neu'r busnes milfeddygol

Byddai hysbysiad gwella yn cael ei gyhoeddi'n ysgrifenedig i'r lleoliad a'r busnes milfeddygol. Byddai'r hysbysiad yn nodi lle nad yw'r busnes wedi bodloni'r safonau, beth sy'n ofynnol i sicrhau cydymffurfiaeth, a'r amserlen i gyflawni hyn. Byddai'r busnes yn gallu parhau i weithredu. Byddai perchnogion busnesau a'r person cyfrifol a enwir yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud o fewn yr amserlen a nodir yn yr hysbysiad gwella. Byddai archwilwyr yn dilyn i fyny gyda'r safle i sicrhau eu bod wedi gwneud y gwelliannau angenrheidiol, gan gynnwys trwy ail-archwiliad yn ôl yr angen.

Nod yr hysbysiadau hyn fyddai gweithio'n adeiladol gyda'r lleoliadau a'r busnesau milfeddygol, gan ddarparu gwybodaeth glir i'w tywys i allu cyflawni'r safonau angenrheidiol. Byddai hyn fell yn cyfyngu ar effaith y diffyg cydymffurfio.

Byddai methu â chydymffurfio â phob un neu unrhyw un o'r hysbysiadau gwella yn drosedd. Byddai angen i'r gorfodi priodol adlewyrchu'r drosedd a gyflawnwyd. Er enghraifft, gall y camau gorfodi a gymerir am ddiffygion sy'n ymwneud â lles anifeiliaid amrywio o'r llwybr a gymerir mewn ymateb i broblemau gyda gofynion defnyddwyr a chystadleuaeth

Pan ganfyddir toriad difrifol neu pan asesir bod risg uniongyrchol i iechyd a lles y cyhoedd neu anifeiliaid, bydd gan y rheoleiddiwr y pŵer:

- i atal y drwydded - byddai hwn yn hysbysiad atal ar unwaith ar gyfer y safle, a fyddai'n gwahardd gweithgareddau mewn rhan neu'r cyfan o'r safle nes bod y mater wedi'i ddatrys

- i ddileu trwydded y safle - byddai dileu trwydded y safle yn cael ei ddefnyddio fel dewis olaf, lle mae pob opsiwn arall wedi methu â datrys y problemau gyda'r safonau.

Pe bai'r busnes wedyn yn cael ei gymryd drosodd gan berchennog newydd, gallai cais newydd am drwydded ddechrau

Bydd sancsiynau’n cael eu hadolygu’n rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn dal yn briodol.

## Canlyniadau

Bydd cyflwyno rheoleiddio statudol ar fusnesau drwy gyfundrefn drwyddedu yn darparu fframwaith clir a chyson i bob darparwr, o grwpiau corfforaethol mawr i bractisau annibynnol a masnachwyr unigol. Drwy gryfhau goruchwyliaeth busnesau milfeddygol, bydd y fframwaith arfaethedig yn helpu i sicrhau, er bod lles anifeiliaid yn parhau i fod wrth wraidd darparu gwasanaethau, nad yw defnyddwyr yn cael eu hanghofio, waeth beth fo'r model perchnogaeth. Bydd disgwyliadau clir ynghylch tryloywder, safonau ac atebolrwydd yn cefnogi gweithwyr milfeddygol proffesiynol i arfer eu barn glinigol er budd gorau iechyd a lles anifeiliaid. Gallant wneud hyn yn rhydd rhag pwysau masnachol a allai achosi gwrthdaro. Ar yr un pryd, bydd gwell cystadleuaeth a diogelwch defnyddwyr yn meithrin ymddiriedaeth gyda pherchnogion anifeiliaid, gan annog mynediad amserol a phriodol at ofal milfeddygol.

Gyda'i gilydd, bydd y diwygiadau hyn yn moderneiddio'r fframwaith rheoleiddio i adlewyrchu sut mae gwasanaethau milfeddygol yn cael eu darparu heddiw. Drwy gyflwyno rheoleiddio busnes cymesur, byddwn yn helpu i greu'r amodau ar gyfer sector milfeddygol a all ffynnu. Mae hyn yn cynnwys cynnal lles anifeiliaid, cefnogi gweithwyr proffesiynol, diogelu defnyddwyr, a pharhau i wneud cyfraniad cryf at dwf economaidd.

## Cymorth i ddefnyddwyr

Etholwyd y llywodraeth hon ar fandad i dyfu ein heconomi. Ni all hyn ddigwydd heb hyder defnyddwyr.

Un o'r pryderon a godir yn aml am y VSA presennol yw nad yw'n mynd i'r afael â diogelwch i ddefnyddwyr (neu gleientiaid) gwasanaethau milfeddygol. Bydd ein cynigion ar gyfer newidiadau i reoleiddio gweithwyr proffesiynol a chyflwyno rheoleiddio ar gyfer busnesau yn helpu i fynd i'r afael â hyn. Mae'n bwysig cofio, fodd bynnag, y bydd achosion o hyd lle mae defnyddwyr yn anfodlon â'r gwasanaeth maen nhw wedi'i dderbyn. Dylid delio â hyn mewn modd cymesur ac amserol er mwyn cynnal hyder yn y proffesiynau a'r sector milfeddygol.

Gallai methu â gwneud hyn arwain at golli hyder yn y sector. Gallai hyn arwain at beidio â mynd ag anifeiliaid i weld gweithiwr milfeddygol proffesiynol, a allai, yn ei dro, gael effeithiau economaidd yn ogystal ag effeithiau ar iechyd a lles anifeiliaid.

### Yr angen am ddiwygio deddfwriaethol

Ni wnaethom ofyn cwestiynau'n benodol ar faterion defnyddwyr yn ystod yr ymgynghoriad, gan ddewis aros am sylwadau gan y CMA yn lle hynny. Fodd bynnag, fe wnaethom dderbyn cryn dipyn o sylwadau ar y mater hwn o hyd.

Un o'r prif bryderon y mae defnyddwyr yn eu codi am y sector milfeddygol yw'r anghymesuredd gwybodaeth sy'n bodoli. Mae hyn yn aml yn ymddangos mewn diwydiannau sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol cymwys iawn. Nid yw'n bosibl uwchsgilio pob aelod o'r cyhoedd i gymwysterau gweithwyr milfeddygol proffesiynol. Fodd bynnag, un maes gwybodaeth y gallwn sicrhau sydd ar gael i ddefnyddwyr yw'r gwasanaethau a gynigir gan fusnesau milfeddygol a'r prisiau maen nhw'n eu codi amdanyn nhw.

O dan y system bresennol, nid oes llawer o fodd i wneud iawn chwaith lle mae pryderon neu gwynion am y gofal a ddarparwyd. Gall pob cleient godi cwyn gyda'r Gwasanaeth Cyfryngu Cleientiaid Milfeddygol (VCMS), sy'n darparu cyfryngu am ddim ac annibynnol lle mae pryderon ynghylch arfer wedi'u codi. Gan mai gwasanaeth gwirfoddol yw hwn ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae anghysondeb yn y ffordd y caiff cwynion eu rheoli ar draws y diwydiant Mae pryderon nad yw defnyddwyr bob amser yn cael y gefnogaeth a'r gwneud iawn y gallent fod â hawl iddo.

### Dull polisi

Mae sicrhau bod mecanweithiau addas ar gyfer gwneud iawn yn hanfodol er mwyn cynnal hyder gyda'r proffesiynau milfeddygol ac o fewn y sector milfeddygol. Rhywbeth sy'n ofynnol er mwyn i'r sector ffynnu.

Drwy gryfhau goruchwyliaeth busnesau milfeddygol, bydd y fframwaith arfaethedig yn helpu i sicrhau, er bod lles anifeiliaid yn parhau i fod wrth wraidd darparu gwasanaethau, nad yw defnyddwyr yn cael eu hanghofio, waeth beth fo'r model perchnogaeth. Byddai hyn yn grymuso defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus am eu darparwr milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid, gan gryfhau ymddiriedaeth a hyder yn y sector.

Bydd gofynion clir ynghylch trin cwynion, cyfryngu a gwneud iawn yn sicrhau bod pryderon yn cael eu trin yn deg ac yn gyson, heb droi'n ddiofyn at orfodi rheoleiddio gormodol. Bydd mwy o dryloywder ynghylch gwasanaethau, prisiau a pherchnogaeth, wedi'i gefnogi gan drefniadau rhannu data a argymhellir gan y CMA, yn grymuso defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus ac annog cystadleuaeth.

Mae cyfryngu ar gael i ddefnyddwyr drwy'r VCMS. Ar hyn o bryd, mae cyfranogiad yn ddewisol i fusnesau, ac mae gwybodaeth am y cynnig hwn ymhlith defnyddwyr yn isel; o ganlyniad, mae nifer isel o bobl yn manteisio ar gyfryngu. Fel rhan o'r rheoliadau busnes newydd, bydd angen i bractisau barn gyntaf ar gyfer anifeiliaid anwes gymryd rhan mewn gwasanaeth cyfryngu. Bydd angen iddynt wneud hyn naill ai drwy'r VCMS neu ddarparwr datrys anghydfodau arall. Mae hyn i alinio â'r argymhelliad gan y CMA. Bydd y posibilrwydd i ymestyn hyn i bob busnes trwy ofynion trwyddedu a bennir gan y rheoleiddiwr, pe bai'r angen yn dod yn amlwg.

Un ffordd y gellir darparu gwneud iawn yw drwy wasanaeth Ombwdsmon. Mae Ombwdsmon yn gorff annibynnol a diduedd sy'n ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd pan fyddant yn credu bod sefydliad wedi gweithredu'n annheg, yn anghywir, neu wedi darparu gwasanaeth gwael. Hefyd, lle nad yw'r gŵyn wedi'i datrys trwy broses gwynion y sefydliad ei hun. Mae gan Ombwdsmon oruchwyliaeth dda o'r sector cyfan hefyd a gall roi cyngor i bob busnes cyn i broblemau systematig ddigwydd.

Fel sy'n wir gyda gwasanaethau Ombwdsmon eraill, byddai hwn yn rhad ac am ddim i aelodau'r cyhoedd ei ddefnyddio, gyda'i gostau'n cael eu talu gan ardoll ar fusnesau. Bydd yr Ombwdsmon yn berthnasol i bob busnes, yn hytrach na'r rhai sy'n darparu gwasanaethau barn gyntaf i anifeiliaid anwes yn unig. Bydd hyn yn galluogi mwy o oruchwyliaeth o'r sector cyfan, a fydd yn arwain at fanteision i bob busnes a defnyddiwr. Bydd y dreth ar fusnesau yn cael ei graddio yn dibynnu ar fath neu faint y busnes (neu’r ddau). Mae hyn er mwyn sicrhau bod y rhai sydd fwyaf abl i wneud hynny yn ysgwyddo’r gyfran fwyaf o'r costau.

## Manylion polisi

### Rhannu data

Drwy eu pwerau i wneud gorchmynion, bydd y CMA yn gweithio gyda'r RCVS i gyflwyno cynllun rhannu data. Bydd hyn yn diweddaru'r system "Dod o Hyd i Filfeddyg" bresennol. Bydd hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr nid yn unig weld y gweithwyr proffesiynol a'r busnesau milfeddygol yn eu hardal, ond hefyd gwybodaeth am berchnogaeth a rhestrau

prisiau ar gyfer triniaethau cyffredin a ddarperir gan y busnes. Gall defnyddwyr hefyd gymharu busnesau yn eu hardal a dewis y busnes y maent yn credu fydd orau i ddiwallu eu hanghenion nhw a'u hanifail anwes. Er mwyn helpu hyn i barhau i sbarduno cystadleuaeth yn yr ardal, mae'r CMA wedi argymell y dylid rhoi sail statudol i rannu data rhwng busnesau a'r rheoleiddiwr. Gellir gwneud hyn mewn is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025. Bydd angen ymgynghoriad ar wahân ar gyfer hyn, a fydd yn cael ei gwblhau maes o law.

Mae'r CMA hefyd wedi argymell i'r rheoleiddiwr eu bod yn parhau â rhywbeth tebyg i'r PSS presennol, a fydd yn caniatáu i ddefnyddwyr wahaniaethu rhwng gwasanaethau. Drwy hyn, bydd defnyddwyr yn gallu gwahaniaethu rhwng gwasanaethau mwy sylfaenol a rhai mwy premiwm. Yna gallant wneud penderfyniad gwybodus ynghylch pa ofal i'w ddefnyddio ar gyfer eu hanifeiliaid. Mae llawer o sefydliadau fel Cymdeithas Filfeddygol Prydain a Chymdeithas Ryngwladol Meddygaeth Cathod eisoes yn cynnig cynllun achredu, ac anogir parhau â hynny.

**Gwneud iawn i ddefnyddwyr**

Bydd ein cynigion ar gyfer sicrhau bod mecanweithiau ar gyfer gwneud iawn yn driphlyg, yn unol ag argymhellion y CMA.

Mewn deddfwriaeth newydd, rydym yn cynnig:

- sicrhau bod gan bob busnes system gwynion fewnol
- sicrhau bod pob practis barn gyntaf ar gyfer anifeiliaid anwes yn y cartref yn cymryd rhan mewn cyfryngu
- creu darpariaeth ar gyfer dyfarnu rhwymol i bob defnyddiwr busnesau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid, o bosibl drwy wasanaeth Ombwdsmon newydd

Bydd y rheoleiddiwr yn gwirio cydymffurfiaeth â'r gofyniad i gael system gwynion fewnol fel rhan o'r broses drwyddedu. Bydd y rheoleiddiwr yn darparu canllawiau ar yr hyn sydd angen ei gynnwys yn y polisi hwn i alluogi busnesau i gydymffurfio a chefnogi eu defnyddwyr. Bydd angen i fanylion y broses gwyno fod ar gael i aelodau'r cyhoedd.

Byddwn hefyd yn cyfarwyddo'r rheoleiddiwr i sicrhau bod mecanwaith ar gyfer gwneud iawn rhwymol, o bosibl drwy sefydlu gwasanaeth Ombwdsmon ar gyfer y sector milfeddygol.

Dim ond mewn achosion lle mae'r gwasanaeth cwynion mewnol a chyfryngu, os yw'n berthnasol, wedi methu â chynhyrchu canlyniad boddhaol y byddai Ombwdsmon yn ymyrryd. Dim ond yn erbyn busnes y gall y pryderon gael eu codi, nid yn erbyn unigolyn; byddai'r rhain, yn hytrach, yn dod o dan gylch gwaith y rheoleiddiwr.

Byddai Ombwdsmon yn gwrando ar bryderon a godir gan unigolion, ac yn adolygu gwybodaeth a gyflwynir gan fusnesau, cyn penderfynu a oes angen unrhyw gamau

gweithredu i ymateb i'r pryderon. Os bydd yr Ombwdsmon yn dyfarnu o blaid y defnyddiwr gallai:

- fynnu ymddiheuriad
- gofyn am dalu iawndal
- gorchymyn i sefydliad gywiro camgymeriad
- argymell newidiadau i bolisïau neu weithdrefnau

Bydd y penderfyniadau hyn, os bydd y defnyddiwr yn cytuno arnynt, yn gyfreithiol rwymol ar y busnes. Mae hyn yn alinio â sut mae gwasanaethau Ombwdsmon yn gweithredu yn y sectorau ariannol, tai, ynni, cyfathrebu a chyfreithiol.

Os bydd Ombwdsmon yn cael ei geisio, ar ôl i'r ddeddfwriaeth arfaethedig ddod i rym, bydd y rheoleiddiwr yn cyhoeddi tendr i sefydliad gyflawni dyletswyddau Ombwdsmon. Gallai sefydliad newydd neu sefydliad sy'n bodoli eisoes ymgymryd â hyn. Yn y cyfamser, bydd y sefydliad a ddewisir yn gallu cyflawni ei swyddogaethau, ond ni fydd ei benderfyniadau'n gyfreithiol rwymol ar fusnesau.

## Canlyniadau

Mae rheoleiddio busnes yn hanfodol i gryfhau hyder defnyddwyr. Bydd proses gwynion glir sydd ar gael i'r cyhoedd yn cefnogi defnyddwyr i deimlo bod eu pryderon wedi cael sylw digonol. Bydd y pryderon hyn yn cael eu trin mewn sefydliad ar wahân i'r rheoleiddiwr, gan sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn gymesur. Bydd trefniadau rhannu data, a fydd yn cefnogi mwy o dryloywder, yn galluogi defnyddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus sy'n iawn iddyn nhw a'u hanifeiliaid. Bydd hefyd yn annog cystadleuaeth o fewn y sector ar yr un pryd.

Er bod llawer o bractisau ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn cynlluniau gwirfoddol, fel PSS yr RCVS neu gyfryngu drwy'r VCMS, nid yw'r rhain yn addas yn lle rheoleiddio cyson a gorfodadwy. Mae natur wirfoddol y trefniadau hyn wedi arwain at anghysondebau o ran safonau, tryloywder, trin cwynion, a gwneud iawn i ddefnyddwyr ar draws y sector. Bydd cyflwyno system gwneud iawn orfodol yn sicrhau bod gan bob defnyddiwr opsiynau ar gael iddynt os oes ganddynt bryderon am y gofal a'r gwasanaethau y maent hwy a'u hanifeiliaid wedi'u derbyn. Bydd y broses hon hefyd yn sicrhau bod gwersi o fewn y sector yn cael eu rhannu gyda phob busnes er mwyn parhau i ddiogelu defnyddwyr yn y dyfodol.

# Llywodraethiant

Rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth newydd gael ei chefnogi gan strwythur llywodraethiant sy'n addas at y diben. Un sy'n:

- diogelu'r cyhoedd
- cefnogi anghenion y proffesiynau
- alinio ag uchelgeisiau ehangach y llywodraeth ar gyfer twf economaidd, diwygio rheoleiddio, a hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau.

Nid yw llywodraethiant clir yn nod ynddo'i hun; mae'n alluogwr pwysig ar gyfer sector a all addasu, arloesi a ffynnu.

Fel gyda'r penodau blaenorol, mae'n bwysig nad yw deddfwriaeth newydd yn addas at y diben yn y presennol yn unig, ond hefyd yn y dyfodol. Bydd y sector milfeddygol yn parhau i esblygu mewn ymateb i newidiadau mewn modelau gweithlu, perchnogaeth busnesau, disgwyliadau defnyddwyr, a datblygiadau technolegol.

Mae llywodraethiant yn llywio sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, pwy sy'n gyfrifol, a sut mae pwerau'n cael eu harfer, gan ddarparu'r fframwaith y mae sefydliadau'n cael eu cyfeirio, eu rheoli a'u dwyn i gyfrif drwyddo. Mae llywodraethiant clir a chymesur yn hanfodol i gefnogi gweithwyr milfeddygol proffesiynol, diogelu lles anifeiliaid, cynnal hyder y cyhoedd, a galluogi twf cynaliadwy ar draws y sector.

Hoffem estyn ein diolch i bawb a ymatebodd gyda'u barn ar bennod Llywodraethiant yr ymgynghoriad. Hoffem hefyd ddiolch i'r RCVS am y gwaith y maent wedi'i gwblhau hyd yn hyn fel rheoleiddiwr y proffesiwn milfeddygol. Rydym hefyd yn diolch iddynt am eu parodrwydd i dderbyn yr heriau a'r gofynion newydd sydd eu hangen i sicrhau bod anifeiliaid a'r cyhoedd yn cael eu diogelu. Rydym hefyd yn ddiolchgar am fewnbwn Cyfarwyddiaeth Rheoleiddio’r Adran Busnes a Masnach, a Thrysorlys EF, y CMA, a’r tîm yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol am eu cefnogaeth a’u mewnbwn. Mae'r holl ymgysylltiadau hyn wedi helpu i lunio'r cynigion llywodraethiant.

## Yr angen am ddiwygio deddfwriaethol

Nid yw'r fframwaith llywodraethiant presennol, sydd wedi'i wreiddio yn y VSA, bellach yn darparu digon o eglurder na hyblygrwydd i ddiwallu anghenion sector milfeddygol modern.

Mae trefn bresennol y rheoleiddiwr wedi gadael llawer o fewn a thu allan i'r proffesiynau wedi'u drysu ynghylch ei rôl. Er bod yr RCVS yn datgan yn glir ei fod yn gweithredu er budd y cyhoedd, gall ei deitl fel “Coleg Brenhinol” greu ansicrwydd. Mewn sectorau eraill, mae Colegau Brenhinol yn aml yn sefydliadau dewisol i ymuno â nhw sy'n cynnig arweinyddiaeth broffesiynol, cydnabyddiaeth o ragoriaeth, neu gynrychiolaeth. Mae'r ffaith bod milfeddygon cymwys yn cael eu galw'n MRCVS (Aelodau o Goleg Brenhinol y

Milfeddygon) yn drysu'r darlun ymhellach drwy awgrymu bod aelodaeth yn ddewisol i weithwyr proffesiynol, yn hytrach nag yn ofyniad er mwyn ymarfer.

Mae'r diffyg eglurder hwn yn cael ei waethygu gan y ffaith bod yr RCVS yn cynnal rheoleiddio sylfaenol ac eilaidd. Mae rheoleiddio eilaidd yn cyfeirio at weithgareddau craidd y rheoleiddiwr gan gynnwys materion cofrestru a disgyblu, y mae eu pwrpas yw diogelu'r cyhoedd drwy bennu a chynnal safonau. Mae rheoleiddio sylfaenol yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol a busnesau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid yn cael eu cefnogi i ddilyn arfer gorau, a bod dysgu parhaus yn cael ei annog i atal niwed cyn iddo ddigwydd. Er nad yw'r rolau hyn yn anghydnaws, mae eu bodolaeth o fewn un corff heb wahanu strwythurol clir yn peryglu tanseilio tryloywder, dealltwriaeth y cyhoedd a hyder yn y system.

Mae hefyd yn gweithredu fel rheoleiddiwr a chorff arweinyddiaeth broffesiynol trwy ei bwerau Siarter Frenhinol, sy'n ei alluogi i reoleiddio nyrsys milfeddygol cofrestredig a rhedeg ei Gynllun Safonau Ymarfer. Er ei fod yn gweithredu er lles y cyhoedd ar hyn o bryd, bu pryderon ynghylch diffyg eglurder yn ei strwythur, ei bwerau a'i ddyletswyddau.

Mae llawer o nyrsys milfeddygol ac AVPs yn teimlo ar hyn o bryd eu bod wedi'u gadael ar ôl gan nad yw'r VSA wedi'i ddiweddaru i ganiatáu mwy o gydweithio fel rhan o dîm milfeddygol amlddisgyblaethol ehangach.

Mae'r achos dros ddiwygio hefyd yn cael ei yrru gan gwmpas rheoleiddio sy'n ehangu. Bydd deddfwriaeth newydd yn cyflwyno rheoleiddio pob gweithiwr milfeddygol proffesiynol a busnesau milfeddygol ac yn gwreiddio ystyriaethau defnyddwyr a chystadleuaeth ochr yn ochr â lles anifeiliaid, diogelu'r cyhoedd, a safonau proffesiynol. Mae hyn yn cynrychioli ehangu cyfrifoldeb rheoleiddio yn sylweddol. Mae rheoleiddio'r farchnad a'r economi yn gofyn am amcanion clir, pwerau priodol, llywodraethiant cryf a goruchwyliaeth gadarn er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n gymesur, yn dryloyw ac yn gyson. Heb ddiwygio, nid yw'r fframwaith llywodraethiant presennol mewn sefyllfa dda i reoli'r blaenoriaethau cystadleuol hyn yn effeithiol.

## Dull polisi

*"Bydd fframwaith llywodraethiant sy'n gynhwysol, yn gytbwys ac yn gymesur yn cefnogi hyder y cyhoedd, hunaniaeth broffesiynol a sefydlogrwydd hirdymor y system reoleiddio ddiwygiedig."*

- ymateb i'r ymgynghoriad

Mae ein dull o weithredu wedi'i arwain gan Gynllun Gweithredu Rheoleiddio y llywodraeth, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025. Nod y cynllun hwn yw mynd i'r afael â chymhlethdod a baich rheoleiddio, lleihau ansicrwydd ar draws y system reoleiddio, a herio a symud

osgoi risg gormodol yn y system. Mae'r uchelgeisiau hyn yn arbennig o berthnasol i sector milfeddygol modern sy'n gweithredu mewn amgylchedd sy'n newid yn gyson. Mae ein dull gweithredu wedi'i arwain ymhellach gan argymhellion y CMA (Atodiad I) a chanlyniadau ein hymgynghoriad, y gellir eu gweld yma. Mae rhagor o fanylion ynghylch pa elfennau a fydd yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol, yn cael sylw drwy is-ddeddfwriaeth, neu'n cael eu gadael i'r rheoleiddiwr wedi'u nodi yn Atodiad II.

Mae cael y strwythur llywodraethiant cywir yn hanfodol i lwyddiant y ddeddfwriaeth newydd. Rydym wedi dylunio'r cynigion llywodraethiant yn seiliedig ar:

- arfer gorau mewn proffesiynau eraill
- cyngor gan y CMA
- adborth o'r ymgynghoriad
- ystyriaeth ofalus o ble y gallai fod yn briodol gwyro oddi wrth arferion proffesiynau eraill.

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) yn gorff annibynnol sy'n goruchwylio gweithgareddau 10 rheoleiddiwr iechyd a gofal cymdeithasol statudol. Mae'n argymell 6 phrif egwyddor allweddol ar gyfer llywodraethiant, perfformiad a diogelu'r cyhoedd. Mae'n dweud y dylai rheoleiddwyr weithredu mewn ffordd sy'n:

- cymesur
- cyson
- wedi’i dargedu
- tryloyw
- atebol
- ystwyth

Mae'r egwyddorion hyn yn ganolog i'n diwygiadau llywodraethiant arfaethedig ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad i reoleiddio sy'n diogelu'r cyhoedd wrth alluogi gweithwyr proffesiynol a busnesau i ffynnu.

Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chael trafodaethau helaeth gyda'r RCVS, y CMA, a rhanddeiliaid eraill, rydym yn cytuno bod manteision i gadw arweinyddiaeth broffesiynol a rheoleiddio o fewn un sefydliad. Rydym yn parhau i drafod gyda'r rheoleiddiwr ynghylch ymarferoldeb cyflawni'r holl gyfrifoldebau hyn o fewn un sefydliad. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y gofynion yn realistig ac yn gyraeddadwy. Os daw’n amlwg nad yw’r cwmpas hwn yn hylaw ar gyfer un sefydliad, byddwn yn ystyried gwahanu’r swyddogaeth arweinyddiaeth broffesiynol oddi wrth y rheoleiddiwr.

Bydd cynnwys yr holl broffesiynau milfeddygol o fewn y rheoleiddiwr yn hanfodol i lwyddiant y ddeddfwriaeth hon. Nododd llawer o AVPs a nyrsys milfeddygol nad ydynt yn teimlo eu bod yn rhan o drafodaethau am y sector milfeddygol ehangach ar hyn o bryd. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn drwy sicrhau bod cyfleoedd i bob proffesiwn gymryd rhan yn y trafodaethau ynghylch sut mae deddfwriaeth yn cael ei chymhwyso i'w proffesiwn.

Yn unol ag arfer gorau, bydd yr RCVS yn cael ei arwain gan Fwrdd a fydd yn cynnwys 12 o unigolion. Bydd 6 ohonynt yn weithwyr milfeddygol proffesiynol a bydd y 6 arall yn bobl lleyg. Byddai pwerau gwneud penderfyniadau'r rheoleiddiwr yn nwylo'r Bwrdd. Gallant ddewis dirprwyo rhai materion i Bwyllgorau eraill. Byddai'r Bwrdd yn parhau i fod yn gyfrifol yn y pen draw am weithredoedd y rheoleiddiwr ac yn atebol am benderfyniadau. Lle bo'n briodol, dylai allu dirprwyo gweithrediadau dyddiol i'w Bwyllgorau, a fyddai yn eu tro yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd.

O dan y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig, byddai gan y rheoleiddiwr bwerau codi ffioedd, cyn belled â'u bod yn alinio â'r strategaeth gorfforaethol ac yn cael eu cynnal ar sail adennill costau. Ni ddylai fod croes-gymorthdaliadau ar gyfer ffioedd. Bydd pob gweithiwr proffesiynol a busnes trwyddedig yn talu un ffi i'r rheoleiddiwr, a byddai'r rheoleiddiwr yn dyrannu arian i'r adrannau rheoleiddio a arweinyddiaeth broffesiynol. Dylai'r rheoleiddiwr gyhoeddi'r rhesymeg dros ddyrannu ffioedd yn ei adroddiad blynyddol i Senedd y DU a'i strategaeth gorfforaethol a'i gynllun gwariant. Bydd hyn yn sicrhau bod eglurder yn cael ei ddarparu i fusnesau trwyddedig a gweithwyr proffesiynol trwyddedig ynghylch yr hyn y mae eu ffioedd yn cael eu gwario arno, gan sicrhau tryloywder i bob busnes, gweithiwr proffesiynol a'r cyhoedd.

Mae angen i reoleiddiwr gael yr awdurdod a'r pwerau cysylltiedig i gyflawni'r gwaith rheoleiddio a nodir yn y penodau blaenorol. Bydd cael y camau gweithredu priodol ar gael iddynt yn golygu y bydd y rheoleiddiwr yn gallu:

- cynnal lles anifeiliaid
- cefnogi'r proffesiynau milfeddygol a'r gweithwyr proffesiynol unigol
- rheoleiddio busnesau
- yn y pen draw gefnogi'r sector milfeddygol i ffynnu.

Bydd gan y rheoleiddiwr lawer o gyfrifoldebau yn cynnwys dros iechyd a lles anifeiliaid, dros iechyd y cyhoedd, a thros reoleiddio'r farchnad. Dyma 3 maes sy'n hynod bwysig i'r llywodraeth hon, ac felly mae angen lefel resymol o oruchwyliaeth ar weithgareddau'r rheoleiddiwr.

## Manylion polisi

### Cwmpas y rheoleiddiwr

Mae ymgymryd â rheoleiddio'r farchnad a'r economi yn gyfrifoldeb mawr i reoleiddiwr. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn gallu darparu cyngor strategol i'r rheoleiddiwr. Bydd hyn yn cefnogi'r rheoleiddiwr, lle bo'n briodol, i ystyried blaenoriaethau'r llywodraeth, rheoli blaenoriaethau cystadleuol ac arfer disgresiwn. Byddai'r cyngor hwn yn digwydd o leiaf unwaith ym mhob Senedd, ond gallai fod yn fwy rheolaidd pe bai angen. Byddai cyngor o'r fath yn amserol ac yn ystyried cylchoedd cynllunio rheoleiddio wrth gefnogi annibyniaeth wrth wneud penderfyniadau gan reoleiddwyr. Byddai dyletswydd gyfreithiol ar y rheoleiddiwr i “roi sylw dyledus” i’r cyngor.

Byddai'r rheoleiddiwr hefyd yn gallu gofyn am gyngor gan yr Ysgrifennydd Gwladol y tu hwnt i'r cyfarfodydd hyn, os yw'n ystyried bod hyn yn angenrheidiol. Bydd cyfarfodydd gwirio rheolaidd bob 6 mis rhwng y rheoleiddiwr ac Ysgrifennydd Gwladol Defra (neu'r gweinidog dirprwyedig priodol).

Byddai cyfrifoldebau'r rheoleiddiwr yn cynnwys:

- sicrhau bod gweithwyr milfeddygol proffesiynol yn diogelu ac yn cynnal iechyd a lles anifeiliaid a'r cyhoedd
- hyrwyddo a diogelu hyder y cyhoedd yn y proffesiynau milfeddygol
- hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny
- diogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaethau milfeddygol, lle nad yw hyn yn groes i'w ofynion lles anifeiliaid
- hyrwyddo a diogelu cystadleuaeth deg o fewn y farchnad, cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl

Bydd y cyfrifoldebau hyn yn cyd-fynd â dyletswyddau i'r rheoleiddiwr, a bydd gan y rheoleiddiwr bwerau i gyflawni'r dyletswyddau hynny.

Mae rhagor o wybodaeth am sut y bydd dyletswyddau a phwerau'n gweithio i'w chael yn Atodiad IV.

**Strwythur y rheoleiddiwr**

Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chael trafodaethau helaeth gyda'r RCVS, y CMA, a rhanddeiliaid eraill, rydym yn cytuno bod manteision i gadw arweinyddiaeth broffesiynol a rheoleiddio o fewn un sefydliad. Rydym yn parhau i drafod gyda'r rheoleiddiwr ynghylch ymarferoldeb cyflawni'r holl gyfrifoldebau hyn o fewn un sefydliad, er mwyn sicrhau bod y gofynion yn realistig ac yn gyraeddadwy. Os daw'n amlwg nad yw'r cwmpas hwn yn hylaw ar gyfer un sefydliad, byddwn yn ystyried gwahanu'r swyddogaeth arweinyddiaeth broffesiynol oddi wrth y rheoleiddiwr.

> *“Mae angen iddo fod yn glir beth yw cyfrifoldebau'r adrannau llywodraethiant unigol, beth bynnag y byddant yn y pen draw.”*
>
> - ymateb i'r ymgynghoriad

Gan dybio bod y rheoleiddiwr yn cadw arweinyddiaeth broffesiynol, bydd angen mwy o eglurder rhwng y swyddogaethau rheoleiddio ac arweinyddiaeth broffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys mwy o eglurder ynghylch strwythur y rheoleiddiwr a sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Fel y nodir yn ein hymgynghoriad, bydd gan y rheoleiddiwr Fwrdd cyffredinol, a fydd yn goruchwylio'r holl weithgareddau y mae'r rheoleiddiwr yn eu cwblhau.

Mae hyn yn angenrheidiol i alluogi gwneud penderfyniadau effeithiol a lleihau dyblygu ymdrech posibl.

O dan y Bwrdd bydd dwy “gangen” y rheoleiddiwr: “rheoleiddio” ac “arweinyddiaeth broffesiynol”. O dan y gangen reoleiddio bydd gweithgareddau'r rheoleiddiwr yn cynnwys:

- gweithwyr proffesiynol - trwyddedu, adnewyddu ac ail-ddilysu, gan gynnwys gofynion addysg ar gyfer cael trwydded i ymarfer, Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), Cymwyseddau Diwrnod Un, a hefyd codau ymddygiad proffesiynol, gweithgareddau i gefnogi gweithwyr proffesiynol i fodloni safonau ac addasrwydd i ymarfer
- busnesau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid - trwyddedu, gan gynnwys pennu safonau, archwiliadau, ymchwiliadau, sancsiynau a gweithgareddau i gefnogi practisau i fodloni safonau gorfodol

O dan y gangen arweinyddiaeth broffesiynol, gallai gweithgareddau gynnwys:

- gweithgareddau traws-broffesiwn, fel: academi, yr amgylchedd a chynaliadwyedd, gweithlu, 'hyrwyddo celf a gwyddor milfeddygaeth a gofal iechyd anifeiliaid', cefnogaeth i RCVS Knowledge
- datblygu a gweithredu cwricwlwm ar gyfer arbenigeddau penodol
- safonau busnes milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid nad ydynt yn orfodol
- arweinyddiaeth broffesiynol
- cyngor gyrfaoedd
- datblygiad gyrfa
- addysgu'r cyhoedd ar ofalu am anifeiliaid a sut i ryngweithio â'r proffesiynau
- cymrodoriaethau a gwobrau

Nid yw amcanion y gangen arweinyddiaeth broffesiynol yn fater ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol. Yn lle hynny, byddwn yn cynnig bod y rheoleiddiwr yn cysylltu â'r Cyfrin Gyngor i drefnu diweddariad i'w Siarter Frenhinol. Bydd hyn yn golygu y bydd materion rheoleiddio yn cael eu nodi mewn VSA newydd, a bydd gweithgareddau arweinyddiaeth broffesiynol yn cael eu galluogi trwy'r Siarter Frenhinol wedi'i diweddaru. Er y bydd yr holl weithgareddau'n cael eu cyflawni er budd y cyhoedd, bydd gweithgareddau o fewn y gangen arweinyddiaeth broffesiynol o dan y Siarter Frenhinol yn canolbwyntio mwy ar y gweithwyr proffesiynol eu hunain. Mae hyn yn cydnabod ei bod er budd y cyhoedd cael gweithwyr milfeddygol proffesiynol sy'n cael eu cefnogi.

*“Mae llywodraethiant a rhannu’r swyddogaethau rheoleiddio a chofrestru yn angenrheidiol ar gyfer goruchwyliaeth annibynnol a hyder y cyhoedd yn y proffesiynau milfeddygol”*

\- ymateb i'r ymgynghoriad

O fewn y gangen arweinyddiaeth broffesiynol, bydd llywyddion ar gyfer pob un o'r 3 chyfadran (1 yr un ar gyfer milfeddygon, nyrsys milfeddygol, a gweithwyr milfeddygol proffesiynol perthynol). Bydd y llywyddion hyn yn aelod o'r proffesiwn y byddant yn llywyddu drosto. Bydd un o'r llywyddion hyn yn cael ei ethol i weithredu fel "Prif Lywydd". Bydd yn adrodd i'r Bwrdd fel y prif berson atebol am bolisi arweinyddiaeth broffesiynol. Bydd y Prif Weithredwr yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflawni holl amcanion y sefydliad, ond bydd angen iddo ystyried arweiniad gan y "Prif Lywydd" ynghylch cyflawni gweithgareddau arweinyddiaeth broffesiynol.

Bydd aelodau'r Bwrdd yn cael eu penodi yn dilyn proses benodi drylwyr i sicrhau bod gan y Bwrdd y profiad a'r arbenigedd gofynnol, yn hytrach na thrwy broses etholiadau. Byddai uwch aelodau’r rheoleiddiwr yn argymell ymgeiswyr i’r Cyfrin Gyngor ar gyfer penodiadau. Byddai’r corff goruchwylio annibynnol yn goruchwylio’r broses hon i sicrhau ei bod yn deg, ond ni fyddai’n gwneud unrhyw sylwadau nac argymhellion ar yr unigolion a benodir. Gellid diweddaru cyfansoddiad y Bwrdd yn y dyfodol drwy is-ddeddfwriaeth, os bydd ystyriaeth o arfer gorau yn newid. Bydd gofyniad i'r Bwrdd ddod â phobl sydd â sgiliau ac arbenigedd mewn meysydd penodol i mewn pan fydd angen gwneud penderfyniadau pwysig. Bydd hyn yn digwydd os nad oes ganddyn nhw'r sgiliau gofynnol ar y Bwrdd. Byddai'r Prif Weithredwr a'r "Prif Lywydd" ill dau yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, ond ni fyddent yn aelodau o'r Bwrdd 12 person.

Byddai gan bob proffesiwn rheoleiddedig (milfeddygon, nyrsys milfeddygol, a gweithwyr milfeddygol proffesiynol perthynol) y cyfle i gael eu penodi i'r Byrddau a'r Pwyllgorau. Er mwyn sicrhau'r setiau sgiliau cywir, gallai penodiadau fod yn seiliedig ar:

- profiad (gan gynnwys rheoleiddio, addysgol, clinigol)
- meysydd arbenigedd (gan gynnwys iechyd y cyhoedd neu fioddiogelwch, anifeiliaid cydymaith, da byw neu geffylau) yn unol â dull Un Iechyd,
- daearyddiaeth (pedair gwlad y DU).

Gallai hyn olygu, ar unrhyw adeg, na fydd cydraddoldeb na chynrychiolaeth gyfrannol o'r holl broffesiynau ar y Bwrdd neu'r Pwyllgor. Yr unig Bwyllgorau a fyddai'n cael eu nodi mewn deddfwriaeth fyddai'r rhai sy'n rheoli'r prosesau addasrwydd proffesiynol i ymarfer a'r sancsiynau busnes. Mater i'r Bwrdd fydd penderfynu ar ddatblygiad Pwyllgorau eraill.

O dan y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig, byddai gan y rheoleiddiwr bwerau codi ffioedd, cyn belled â'u bod yn alinio â'r strategaeth gorfforaethol ac yn cael eu cynnal ar sail adennill costau. Ni fydd angen is-ddeddfwriaeth na chymeradwyaeth y llywodraeth ar gyfer ffioedd newydd na newidiadau i ffioedd. Fodd bynnag, dylai'r rheoleiddiwr:

- ymgynghori’n gyhoeddus ar ei strategaeth gorfforaethol a’i gynlluniau gwariant bob tair i bum mlynedd
- egluro’r rhesymeg dros newidiadau i ffioedd (gan gynnwys gyrwyr cost a thraws-gymorthdaliadau);

- cyhoeddi cynllun corfforaethol wedi'i gostio yn amlinellu sut y bydd ffioedd yn cael eu defnyddio i fodloni gofynion

Gan gydnabod pa mor bwysig yw llythrennau ôl-enw i weithwyr milfeddygol unigol, rydym yn cynnig y gellir cadw'r rhain ar gyfer y rhai sydd â thrwydded i ymarfer. Gan gydbwyso hyn â'r angen i roi eglurder i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ynghylch rôl y rheoleiddiwr, rydym yn cynnig bod y rheoleiddiwr yn cyflwyno llythrennau ôl-enw sy'n benodol i bob proffesiwn nad ydynt yn ymwneud ag aelodaeth. Y rhain fyddai RVS (Milfeddyg Cofrestredig), RVN (Nyrs Filfeddygol Gofrestredig) neu RAVP (Gweithiwr Milfeddygol Proffesiynol Perthynol Cofrestredig - wedi'u dilyn gan y proffesiwn penodol, er enghraifft RAVP (Ffarier)).

Er mwyn i'r rheoleiddiwr gael enw sy'n cynrychioli ei weithgareddau'n wirioneddol, rydym yn awgrymu i'r RCVS ei fod yn ystyried gofyn am newid enw, wrth weithio gyda'r Cyfrin Gyngor ar Siarter Frenhinol wedi'i hadnewyddu. Rydym yn argymell bod yr RCVS yn ymgynghori â'i aelodau presennol a gweithwyr proffesiynol trwyddedig yn y dyfodol i ddatblygu enw newydd.

**Goruchwyliaeth**

O dan y cynigion hyn, byddai'n ofynnol yn ffurfiol i'r rheoleiddiwr gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon i lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Byddai'r adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno gerbron y Senedd a disgwylir iddynt gynnwys:

- cenhadaeth, pwrpas, trosolwg sefydliadol, cyngor SoS a dderbyniwyd a chamau a gymerwyd i'w cyflawni
- crynodeb o'r flwyddyn, gan gynnwys unrhyw ddigwyddiadau neu gyflawniadau arwyddocaol
- adolygiad perfformiad, gan gynnwys canlyniadau gweithredol, dangosyddion perfformiad allweddol, canlyniadau darparu gwasanaethau
- blaenoriaethau strategol ac amcanion ar gyfer y blynyddoedd i ddod
- trosolwg o risg, gan gynnwys y prif risgiau, lliniariadau, a rheolaethau mewnol
- adrodd ar gynaliadwyedd
- cyd-destun y farchnad neu'r sector
- llywodraethiant (Bwrdd, pwyllgorau), gan gynnwys unrhyw newidiadau i bersonél, cyfrifoldebau cyfarwyddwyr
- adroddiad tâl, gan gynnwys cyflogau, bonysau, rhwymedigaethau pensiwn; difidendau a dalwyd neu a gynigiwyd
- datganiadau ymgysylltu â gweithwyr a rhanddeiliaid
  Datganiadau ariannol yn cynnwys
  - datganiad o Elw a Cholled
  - datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
  - datganiad o Lif Arian Parod
  - datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti
- gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol (swyddfa gofrestredig, archwilwyr, rhif cwmni)

- adroddiadau'r archwilydd

Byddai’r Senedd yn gallu craffu ar y rheoleiddiwr a holi ei arweinwyr ar berfformiad, cwynion a gweithgareddau drwy wrandawiadau atebolrwydd yn y Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (EfraCom).

Byddai hyn yn cynnwys adolygu:

- sut mae'r polisi'n cael ei gymhwyso'n ymarferol
- ystadegau ar achosion addasrwydd i ymarfer a phwerau mynediad gorfodol
- defnydd y cofrestrydd o ddisgresiwn yn y prosesau trwydded i ymarfer ac addasrwydd i ymarfer, dadansoddiad o ganlyniadau unrhyw gamau gorfodi.

Yn ogystal, rydym yn cynnig y dylai fod corff i oruchwylio gweithgareddau'r rheoleiddiwr. Rydym o'r farn mai corff goruchwylio annibynnol sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r swyddogaeth hon oherwydd ei arbenigedd mewn craffu ar berfformiad rheoleiddwyr proffesiynol a sicrhau eu perfformiad. Byddai'r corff goruchwylio yn cyflawni'r rôl hon drwy:

- adolygu perfformiad y rheoleiddiwr
- archwilio'r defnydd o bwerau (gan gynnwys dileu trwydded ymarfer gweithiwr proffesiynol, pwerau mynediad, ymweliadau gorfodi, a dileu trwydded busnes)
- adolygu sut mae rheolau wedi cael eu gwneud neu eu diwygio (neu’r ddau).
- adolygu sut mae'r rheoleiddiwr wedi cyflawni a blaenoriaethu ei amcanion
- adolygu sut mae'r rheoleiddiwr wedi cynnal ymgynghoriadau a sut mae'r canlyniadau hyn wedi dylanwadu ar benderfyniadau terfynol
- adolygu'r broses benodi i sicrhau ei bod yn deg ac yn dryloyw
- adolygu'r broses a'r penderfyniadau pennu ffioedd, er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder
- adolygu'r prosesau a'r canlyniadau addasrwydd i ymarfer

---

*“Mae goruchwyliaeth annibynnol yn gonglfaen llywodraethiant da a hyder y cyhoedd”*

- ymateb i'r ymgynghoriad

---

Yn unol â goruchwylio rheoleiddwyr eraill, rydym yn archwilio cyfleoedd i'r corff goruchwylio:

- gosod safonau ar gyfer rheoleiddwyr
- cynhyrchu canllawiau i'w helpu i wella mewn meysydd penodol
- sicrhau bod gwersi’n cael eu dysgu o ddigwyddiadau’r gorffennol;
- sganio’r gorwel am ddatblygiadau newydd a allai effeithio ar reoleiddio; er enghraifft, y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) yn y dyfodol

- rhannu dysgu ac adborth o'i wiriadau ar benderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer rheoleiddwyr.

**Apeliadau**

Mae'n bwysig ym mhob agwedd ar y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig hon bod cyfleoedd i apelio yn erbyn penderfyniadau y mae partïon yn eu hystyried yn annheg.

Bydd apeliadau ar gael yn dilyn pan fydd gweithiwr proffesiynol yn anfodlon â thribiwnlys addasrwydd i ymarfer a aeth yn ei erbyn. Bydd yr apeliadau hyn yn cael eu clywed yn yr Uchel Lys.

Os gwrthodir cais unigolyn am drwydded i ymarfer, gallant apelio. Yn gyntaf byddai hyn yn gofyn i'r rheoleiddiwr ailystyried os oes ganddynt dystiolaeth sy'n awgrymu bod y rheoleiddiwr wedi gwneud camgymeriad. Os nad yw hyn yn llwyddiannus, byddai'r gweithiwr proffesiynol yn gallu gofyn am Adolygiad Barnwrol gan yr Uchel Lys.

Bydd apeliadau ar agor i bobl os ydynt wedi cael sancsiynau wedi'u gosod arnynt mewn tribiwnlys. Bydd yr apeliadau hyn, na ellir eu defnyddio dim ond oherwydd bod rhywun yn anghytuno â nhw, yn cael eu huwchgyfeirio i'r Uchel Lys. Ni fydd apeliadau ar gael lle mae sancsiynau neu gamau gweithredu wedi'u cytuno ar y cyd rhwng gweithiwr proffesiynol ac archwilwyr achosion. Byddai gan weithiwr proffesiynol hawl i ofyn am Adolygiad Barnwrol gan yr Uchel Lys ond dim ond o dan achosion eithriad y byddai hyn yn cael ei dderbyn, yn ôl pob tebyg yn dilyn gwall gweithdrefnol difrifol.

Bydd apeliadau hefyd ar gael i fusnesau drwy gydol y broses drwyddedu a thra byddant yn cael eu harchwilio neu'n destun sancsiynau. Byddai hawl statudol i apelio naill ai drwy'r rheoleiddiwr neu i Siambr Rheoleiddio Gyffredinol y Tribiwnlys Haen Gyntaf, yn dibynnu ar natur y gŵyn.

Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd cyfle gan ddefnyddwyr i uwchgyfeirio pryderon naill ai drwy gyfryngu neu drwy fecanwaith gwneud iawn rhwymol, fel Ombwdsmon.

## Canlyniadau

Mae llywodraethiant effeithiol yn hanfodol i sector milfeddygol ffyniannus a dibynadwy. Mae'n pennu sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, sut mae pwerau'n cael eu harfer, a sut mae sefydliadau'n cael eu dwyn i gyfrif. Mae'r sector yn chwarae rhan hanfodol mewn lles anifeiliaid, iechyd y cyhoedd, diogelu defnyddwyr, a'r economi ehangach. Felly, rhaid i strwythurau llywodraethiant ennyn hyder y cyhoedd, cefnogi safonau proffesiynol, a pharhau i allu addasu i newid.

Bydd diwygio llywodraethiant drwy VSA wedi'i foderneiddio yn darparu eglurder a thryloywder i weithwyr proffesiynol, busnesau a'r cyhoedd. Bydd yn rhoi'r offer a'r strwythur sydd eu hangen ar y rheoleiddiwr i weithredu'n effeithiol heddiw, gan barhau i fod yn ddigon hyblyg i ymateb i heriau'r dyfodol. Wrth wneud hynny, bydd yn helpu i greu'r

amodau ar gyfer sector milfeddygol a all ffynnu. Mae hyn yn cynnwys cefnogi lles anifeiliaid, diogelu defnyddwyr, grymuso gweithwyr proffesiynol, a chyfrannu at economi gref a gwydn.

## Y camau nesaf

Byddwn yn ceisio sicrhau lle ar gyfer Bil cyn gynted ag y bydd amser Seneddol yn caniatáu er mwyn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd. Bydd pasio'r Bil hefyd yn caniatáu i'r Senedd graffu ar ein cynigion cyn iddynt ddod yn gyfraith.

Byddai angen dyddiad dod i rym ar unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol newydd, gydag is-ddeddfwriaeth i ddilyn. Mae Atodiad II yn cynnwys manylion ynghylch ai deddfwriaeth sylfaenol, is-ddwddfwriaeth neu'r rheoleiddiwr fydd yn cyflawni pob agwedd ar bolisi. Bydd y dull graddol hwn yn rhoi amser i fusnesau, gweithwyr proffesiynol unigol, a'r rheoleiddiwr wneud y diweddariadau gofynnol, yn ogystal â chaniatáu hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gymerodd yr amser i gwblhau'r ymgynghoriad, neu fynychu un o'n digwyddiadau rhanddeiliaid, mae'r adborth a ddarparwyd gennych wedi bod yn hanfodol wrth gefnogi datblygiad ein safbwynt polisi.

# Atodiadau

## Atodiad I: Adolygiad manwl o argymhellion CMA

**Argymhelliad 1**

Rydym yn argymell i lywodraeth y DU ei bod yn sefydlu cyfundrefn statudol newydd ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau milfeddygol ar gyfer anifeiliaid anwes.

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd i ddisodli Deddf Milfeddygon 1966 pan fydd amser Seneddol yn caniatáu.

**Argymhelliad 2**

Rydym yn argymell i'r llywodraeth y dylid cynnwys busnesau milfeddygol (a'r practisau y maent yn berchen arnynt) o fewn cwmpas y rheoleiddio.

- Adrodd blynyddol gan fusnesau i'r rheoleiddiwr:
    - Darparu gwybodaeth y gofynnwyd amdani, megis data cwynion, gwybodaeth am wasanaethau a gynigir, cymwysterau staff, a manylion perchnogaeth
    - Datgan cydymffurfiaeth â safonau

(Adran 9.62)

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Roedd hyn yn rhan o'r ymgynghoriad i ddiwygio Deddf Milfeddygon 1966, a bwriedir iddo ffurfio rhan o ddeddfwriaeth newydd, a fydd yn cael ei gosod pan fydd amser Seneddol yn caniatáu.

**Argymhelliad 3**

Rydym wedi penderfynu argymell (i) y dylai'r gofynion ar fusnesau milfeddygol, o leiaf, adlewyrchu cynnwys ein Gorchymyn a osodir ar fusnesau milfeddygol, (ii) y dylai fod gofyniad i fodloni safonau clinigol sylfaenol, a (iii) y dylai rheoleiddio fod yn berthnasol ar lefel sefydliadol i'r person cyfreithiol sy'n cynnal y busnes hwnnw.

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Roedd hyn yn rhan o'r ymgynghoriad i ddiwygio Deddf Milfeddygon 1966, a bwriedir iddo ffurfio rhan o ddeddfwriaeth newydd, a fydd yn cael ei gosod pan fydd amser Seneddol yn caniatáu.

**Argymhelliad 4**

Ein hargymhelliad yw, er y dylai rheoleiddio daro cydbwysedd priodol rhwng gofynion rhagnodol a mabwysiadu egwyddorion, y byddai ffocws ar ganlyniadau lle bo modd yn fwy cymesur ac yn well yn y tymor hwy.

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Cynigir bod hyn yn rhan o ddeddfwriaeth newydd, a fydd yn cael ei gosod pan fydd amser Seneddol yn caniatáu.

**Argymhelliad 5**

Rydym wedi penderfynu argymell i'r llywodraeth y dylai fod cynllun ar gyfer mesur a chyfleu i berchnogion anifeiliaid anwes ansawdd y gwasanaethau y mae busnesau milfeddygol yn eu darparu.

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Bydd gan ran arweinyddiaeth broffesiynol y rheoleiddiwr y gallu i barhau â chynllun achredu, fel esblygiad o'r Cynllun Safonau Ymarfer.

**Argymhelliad 6**

Rydym yn argymell i'r llywodraeth y dylid cryfhau rheoleiddio gweithwyr milfeddygol proffesiynol, gyda gofynion rheoleiddio i hyrwyddo cystadleuaeth yn well, er mwyn sicrhau bod gan berchnogion anifeiliaid anwes wybodaeth sy'n eu galluogi i ddewis rhwng darparwyr a gwasanaethau.

- Rhannu data:
    - Datblygu Cynllun Data Clyfar i roi gwefan cymharu prisiau ar sail statudol

(Adran 1.23)

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Cynigir bod hyn yn rhan o ddeddfwriaeth newydd, a fydd yn cael ei gosod pan fydd amser Seneddol yn caniatáu.

**Argymhelliad 7**

Rydym wedi penderfynu argymell i'r llywodraeth y dylai'r rheoleiddiwr gael digon o bwerau ac adnoddau statudol i alluogi monitro cydymffurfiaeth â rheoleiddio gan fusnesau milfeddygol a gweithwyr milfeddygol proffesiynol yn effeithiol.

- Rheoleiddiwr i allu:
    - Gofyn am wybodaeth ychwanegol
    - Cynnal archwiliadau, yn rheolaidd ac ar sail risg

    - Cyhoeddi manylion camau disgyblu a gorfodi

(Adrannau  9.63-65)

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Roedd hyn yn rhan o'r ymgynghoriad i ddiwygio Deddf Milfeddygon 1966, a bwriedir iddo ffurfio rhan o ddeddfwriaeth newydd, a fydd yn cael ei gosod pan fydd amser Seneddol yn caniatáu.

**Argymhelliad 8**

Rydym wedi penderfynu argymell i'r llywodraeth y dylid cynllunio'r trothwyon cyfreithiol perthnasol ar gyfer camau rheoleiddio i sicrhau y gellir cymryd camau gorfodi (yn erbyn busnesau milfeddygol a gweithwyr proffesiynol) mewn perthynas ag ystod llawer ehangach o droseddau na dim ond yr achosion o gamymddwyn mwyaf difrifol.

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Roedd hyn yn rhan o'r ymgynghoriad i ddiwygio Deddf Milfeddygon 1966, a bwriedir iddo ffurfio rhan o ddeddfwriaeth newydd, a fydd yn cael ei gosod pan fydd amser Seneddol yn caniatáu.

**Argymhelliad 9**

Rydym wedi penderfynu argymell i'r llywodraeth y dylid rhoi ystod eang o bwerau gorfodi i'r rheoleiddiwr i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio â rheoliadau gan fusnesau milfeddygol, milfeddygon a nyrsys milfeddygol.

- Sancsiynau i weithwyr proffesiynol:
    - Ymgymeriadau
    - Cyngor a rhybuddion ffurfiol
    - Gorchmynion dros dro
    - Amodau ar y drwydded
    - Atal neu ddileu'r drwydded

(Adran 9.76)

- Sancsiynau i fusnesau:
    - Ymgymeriadau
    - Cyhoeddi cyngor/rhybuddion
    - Gorchmynion dros dro
    - Dirwyon
    - Gosod amodau
    - Atal/dileu trwydded

(Adran 9.75)

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Roedd hyn yn rhan o'r ymgynghoriad i ddiwygio Deddf Milfeddygon 1966, a bwriedir iddo ffurfio rhan o ddeddfwriaeth newydd, a fydd yn cael ei gosod pan fydd amser Seneddol yn caniatáu.

**Argymhelliad 10:**

Rydym yn argymell i'r llywodraeth y dylid sefydlu system gynhwysfawr ar gyfer trin cwynion a gwneud iawn yn y sector milfeddygol drwy (neu gan ddefnyddio pwerau a roddir i reoleiddiwr gan) ddeddfwriaeth.

- Cwynion a gwneud iawn:
    - Practisau Barn Gyntaf i gael system gwynion fewnol ac ymgysylltu â chyfryngu
    - Sefydlu system gwneud iawn rhwymol, lle mae cwynion mewnol a chyfryngu wedi methu â dod i gasgliad boddhaol

(Adrannau 9.86-87)

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Fel rhan o ddiwygiadau i Ddeddf Milfeddygon 1966, byddwn yn gwneud cael system gwynion fewnol ac ymgysylltu â chyfryngu yn orfodol i bob busnes. Rydym yn parhau i archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno gwasanaeth ombwdsmon milfeddygol.

**Argymhelliad 11**

Rydym wedi penderfynu argymell i'r llywodraeth y dylai'r rheoleiddiwr gael dyletswyddau defnyddwyr a chystadleuaeth statudol.

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Roedd hyn yn rhan o'r ymgynghoriad i ddiwygio Deddf Milfeddygon 1966, a bwriedir iddo ffurfio rhan o ddeddfwriaeth newydd, a fydd yn cael ei gosod pan fydd amser Seneddol yn caniatáu.

**Argymhelliad 12**

Rydym wedi penderfynu argymell cyfres o egwyddorion gweithredol i'r llywodraeth a fydd yn llywio dyluniad rheoleiddiwr milfeddygol yn y dyfodol.

- Annibyniaeth strategol a gweithredol ar gyfer materion rheoleiddio, ynghyd â phwrpas clir wedi'i gyfleu yn dda
- Cyllid wedi'i glustnodi a'i warantu ar gyfer swyddogaethau rheoleiddio
- Lleihau maint y byrddau a strwythur pwyllgorau wedi'i ailgynllunio
- Aelodaeth y bwrdd llywodraethiant a'r pwyllgorau yn cynnwys yr arbenigedd priodol sydd ei angen i gyflawni eu hamcanion

- Penodi aelodau'r bwrdd, yn hytrach na'u hethol gan gofrestreion
- Mynegiant a dyluniad clir o rôl cadeirydd, er mwyn sicrhau nad yw'n cael ei weld fel ffigur arweinyddiaeth broffesiynol

(Adran 9.131)

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Mae ein trefn sefydlu arfaethedig o ran y rheoleiddiwr yn ystyried yr egwyddorion hyn.

**Pwyntiau i'w hystyried 1**

Mae'r Llywodraeth yn ystyried diwygio deddfwriaethol sy'n diogelu teitl nyrs filfeddygol, gan ei gadw i'r rhai sydd â chymwysterau perthnasol.

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Roedd hyn yn rhan o'r ymgynghoriad i ddiwygio Deddf Milfeddygon 1966, a bwriedir iddo ffurfio rhan o ddeddfwriaeth newydd, a fydd yn cael ei gosod pan fydd amser Seneddol yn caniatáu.

**Pwyntiau i'w hystyried 2**

Mae'r Llywodraeth yn ystyried newidiadau i'r VSA sy'n ehangu cwmpas y tasgau y gall nyrsys milfeddygol eu cyflawni.

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Roedd hyn yn rhan o'r ymgynghoriad i ddiwygio Deddf Milfeddygon 1966, a bwriedir iddo ffurfio rhan o ddeddfwriaeth newydd, a fydd yn cael ei gosod pan fydd amser Seneddol yn caniatáu.

**Pwyntiau i'w hystyried 3**

Os nad yw cydbwysedd priodol rhwng:

- lles anifeiliaid, iechyd y cyhoedd a diogelu'r amgylchedd; a'r
- angen i sicrhau y gall gwasanaethau milfeddygol yn y DU ddarparu prisiau cystadleuol, arloesedd a thwf yn unol â newid technolegol a galw defnyddwyr

yn bodoli, dylai ystyried newidiadau i Cascade fel ei fod yn gweithio'n well i berchnogion anifeiliaid anwes a'u hanifeiliaid anwes, yn enwedig mewn perthynas â chaniatâd ystyried costau triniaeth wrth ragnodi rhai meddyginiaethau.

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Bydd y VMD yn ystyried a oes angen newidiadau i ganllawiau Cascade.

**Pwyntiau i'w hystyried 4**

Dylai'r VMD a'r RCVS ystyried cydnabod bod cost eisoes yn ffactor arwyddocaol wrth drin anifeiliaid anwes ac egluro'r amgylchiadau lle y gellid ystyried cost (o dan y rheolau presennol) wrth ragnodi yn ôl Cascade, er mwyn darparu gofal cyd-destunol effeithiol.

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Bydd y VMD yn ystyried a oes angen newidiadau i ganllawiau Cascade.

**Pwyntiau i'w hystyried 5**

Dylai'r VMD ystyried a oes mwy o le i leihau effaith y Cyfyngiad Hysbysebu ar gystadleuaeth a mynediad gan fferyllfeydd ar-lein, a gallu FOPs i roi'r wybodaeth am brisiau sydd ei hangen ar berchnogion anifeiliaid anwes i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch ble maen nhw'n prynu meddyginiaethau POM-V y rhagnodwyd iddynt, heb effeithiau negyddol anghymesur ar iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid.

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Bydd y VMD yn ystyried a oes angen newidiadau i ganllawiau hysbysebu.

**Pwyntiau i'w hystyried 6**

Ystyried y ffordd y mae'r fframwaith yn trin ystyriaethau lles anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd a chystadleuaeth a buddiannau defnyddwyr ac a yw pob un o'r ffactorau hyn yn cael y pwyslais priodol o ystyried natur ddatblygol y ffordd y mae gwasanaethau milfeddygol yn cael eu darparu yn y DU bellach.

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Bydd y VMD yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n weithredol â chydweithwyr yn RCVS a Defra fel bod sector milfeddygol y DU yn parhau i ffynnu wrth ystyried pob un o'r pwyntiau pwysig hyn.

**Pwyntiau i'w hystyried 7**

Efallai y bydd cyfleoedd i wella cystadleuaeth os bydd Defra, y VMD a'r RCVS yn parhau i adolygu, ac yn nodi'n weithredol, agweddau ar y fframwaith rheoleiddio y gellid eu haddasu i alluogi defnydd mwy eang a chyfrifol o Delefeddygaeth.

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Bydd y VMD yn ymgysylltu â chydweithwyr RCVS a Defra ar unrhyw gyfleoedd i wella cystadleuaeth.

**Pwyntiau i'w hystyried 8**

Dylai'r VMD a chyrff perthnasol eraill (Defra ac RCVS) fyfyrio ar ffyrdd o ysgogi ailddosbarthu meddyginiaethau milfeddygol ymhellach er mwyn cynyddu mynediad at y cynhyrchion hyn y tu allan i leoliad FOP.

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad: Bydd y VMD yn ystyried a oes angen camau i gyflawni hyn. Mae categorïau dosbarthu yn darparu rheolaethau ar werthu neu gyflenwi meddyginiaethau milfeddygol i sicrhau bod cyngor priodol yn cael ei roi wrth werthu fel y gellir defnyddio cynhyrchion yn ddiogel ac yn effeithiol. Penderfynir ar gategori dosbarthu meddyginiaeth filfeddygol gan aseswyr gwyddonol yn y VMD yn dilyn gwerthuso'r ffeil gais ar gyfer rhoi awdurdodiad marchnata. Gellir ei newid yn dilyn asesiad o gais gan ddeiliad yr awdurdodiad marchnata, sy'n cyflwyno data diogelwch ac effeithiolrwydd a gwyliadwriaeth ffarmacolegol i gefnogi'r newid hwn.

## Atodiad II: Deddfwriaeth Sylfaenol, Is-ddeddfwriaeth, Rheoleiddiwr

### Trwydded i ymarfer

Deddfwriaeth sylfaenol:

- Yr angen i gael trwydded i ymarfer i gyflawni gweithgareddau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid
- Cwmpas gweithgareddau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid
- Gofynion ar gyfer cael trwydded i ymarfer
- Mathau o drwyddedau i ymarfer sydd ar gael
- Y gallu i ddirwyo ac euogfarnu pobl sy'n cyflawni gweithgareddau heb drwydded
- Gweithwyr proffesiynol i ddatgan eu bod yn addas i ymarfer

Is-ddeddfwriaeth:

- Diffiniad o weithgareddau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid
- Eithriadau

Rheoleiddiwr i benderfynu:

- Pa weithdrefnau sy'n briodol i bob proffesiwn eu cwblhau, ac (os yw'n berthnasol) pa eitemau ychwanegol y gellir eu gwneud gydag arbenigedd pellach
- Beth fydd y gofynion manwl i bob proffesiwn allu ennill eu trwydded i ymarfer, gan gynnwys cymwysterau, hyfforddiant, Cymwyseddau Diwrnod Un
- A ganiateir adolygiadau anffurfiol o ddogfennaeth ai peidio pan wrthodir rhoi trwyddedau i ymarfer
- Gofynion DPP
- Y gallu i osod ei arholiad trwyddedu ei hun
- Ail-ddilysu

### Aelodau'r tîm milfeddygol

Deddfwriaeth sylfaenol:

- Bydd y rhai sy'n cynnal gweithgareddau milfeddygol/gofal iechyd anifeiliaid (gan gynnwys ffarieriaid ac AVPs penodol) yn cael eu hystyried yn rhan o'r tîm.
- Diddymu y Cyngor Cofrestru Ffarieriaid a dileu'r Ddeddf (Cofrestru) Ffarieriaid 1975.
- Bydd gan aelodau'r tîm milfeddygol deitlau gwarchodedig

Is-ddeddfwriaeth:

- Y teitlau i'w diogelu

Rheoleiddiwr i benderfynu:

- Canllawiau ar sut y dylai'r tîm milfeddygol gydweithio (gan fod yn ymwybodol o'r angen am ymreolaeth)
- Cod ymddygiad ar gyfer pob un o'r proffesiynau
- Cylchoedd gwaith ar gyfer pob proffesiwn

**Prosesau addasrwydd i ymarfer**

<u>Deddfwriaeth sylfaenol:</u>

- Cyflwyniad i'r broses addasrwydd i ymarfer tri cham sy'n seiliedig ar yr egwyddor "amhariad cyfredol"

<u>Rheoleiddiwr i benderfynu:</u>

- Safonau ar yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn addas i ymarfer
- Manylion y prosesau addasrwydd i ymarfer
- Amserlenni ar gyfer proses addasrwydd i ymarfer

**Sancsiynau addasrwydd i ymarfer**

<u>Deddfwriaeth sylfaenol:</u>

- Cyflwyno gorchmynion dros dro a throseddau gwahardd awtomatig i ddiogelu'r cyhoedd ac anifeiliaid
- Angen aros 5 mlynedd i wneud cais am drwydded ar ôl iddi gael ei dileu
- Sancsiynau: atal dros dro, ymrwymiadau, trwydded amodol (atal gwaith mewn meysydd penodol), dileu trwydded.
- Y gallu i roi rhybuddion ysgrifenedig ffurfiol
- Apeliadau: i'r Uchel Lys ar gyfer gweithwyr proffesiynol
- Adolygiad o sancsiynau ac amodau a osodir ar drwyddedau
- Mae methu â chydymffurfio yn arwain at atgyfeiriad yn ôl i'r broses Addasrwydd i Ymarfer

<u>Is-ddeddfwriaeth:</u>

- Pa droseddau fydd yn arwain at waharddiad awtomatig rhag trwyddedu

<u>Rheoleiddiwr i benderfynu:</u>

- Pennu'r canllawiau ar gyfer gorchmynion dros dro
- Pennu'r canllawiau ar gyfer dileu yn wirfoddol
- Pennu'r canllawiau ar sut y bydd barn achwynwyr yn cael ei hystyried
- Sut y bydd sancsiynau'n cael eu rhoi ar waith mewn gwahanol amgylchiadau
- Pennu canllawiau ar adolygu sancsiynau
- Pennu canllawiau ar gyfer methu â chydymffurfio â sancsiynau

**Trwyddedau busnes**

Deddfwriaeth sylfaenol:

- Gofyniad i gael trwydded i weithredu a bodloni'r gofynion gofynnol
- Safonau cyffredinol ar gyfer pob busnes milfeddygol
- Pwerau mynediad, os oes angen, ar gyfer archwiliadau milfeddygol
- Eithriadau ar gyfer busnesau sydd eisoes wedi'u cynnwys o dan reoliadau eraill, er mwyn osgoi dyblygu er enghraifft lladd-dai a Gwasanaethau Milfeddygol y Llywodraeth
- Proses gwneud iawn rhwymol statudol ar gyfer cwynion

Is-ddeddfwriaeth:

- Diffiniad o fusnes milfeddygol

Rheoleiddiwr i benderfynu:

- Pennu safonau penodol i'r sector

**Cyfrifoldeb rheoleiddio busnes**

Deddfwriaeth sylfaenol:

- Angen am Berson Cyfrifol a Enwir
- Rolau cyffredinol y Person Cyfrifol a Enwir
- Bydd y rheoleiddiwr yn cael ei ychwanegu at y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd

Rheoleiddiwr i benderfynu:

- Pennu'r canllawiau ar gyfer y Person Cyfrifol a Enwir

**Archwiliadau busnes**

Deddfwriaeth sylfaenol:

- Caniatáu i'r rheoleiddiwr gynnal archwiliadau
- Caniatáu i'r rheoleiddiwr gael pwerau mynediad a phwerau cysylltiedig eraill
- Trosedd i beidio â chaniatáu mynediad neu rwystro archwilydd

Rheoleiddiwr i benderfynu:

- Pennu'r polisi ynghylch pryd i ddefnyddio gwahanol fathau o archwiliadau

**Sancsiynau busnes**

Deddfwriaeth sylfaenol:

- Rheoleiddiwr i roi sancsiynau lle nad yw safonau wedi'u cynnal
- Trosedd i beidio â chydymffurfio â hysbysiadau gwella

**Cwmpas y rheoleiddiwr**

Deddfwriaeth sylfaenol:

- Rheoleiddio gweithwyr milfeddygol proffesiynol
- Rheoleiddio busnesau
- Amcanion ar gyfer y rheoleiddiwr
- Pwerau a dyletswyddau'r rheoleiddiwr

**Strwythur y rheoleiddiwr**

Deddfwriaeth sylfaenol:

- Strwythur cyffredinol y rheoleiddiwr i sicrhau gwahaniaeth clir rhwng y swyddogaethau rheoleiddio ac arweinyddiaeth broffesiynol
- Sefydlu'r Bwrdd, a fydd â phwerau gwneud penderfyniadau, a'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer a Sancsiynau Busnes
- Proses o benodi i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau
- Dylai'r rheoleiddiwr gynhyrchu strategaeth gorfforaethol a chynllun gwariant

Is-ddeddfwriaeth:

- Maint a chyfansoddiad y Bwrdd

Rheoleiddiwr i benderfynu:

- Strwythur y pwyllgorau

**Goruchwyliaeth y rheoleiddiwr**

Deddfwriaeth sylfaenol:

- Dylai'r rheoleiddiwr ymgynghori ar unrhyw reolau rheoleiddio newydd a gynigir
- Bydd y rheoleiddiwr yn atebol i Senedd y DU a'r Llywodraethau Datganoledig
- Bydd y rheoleiddiwr yn atebol i gorff goruchwylio annibynnol
- Bydd y rheoleiddiwr yn mynychu cyfarfodydd bob 6 mis gydag Ysgrifennydd Gwladol Defra
- Bydd y rheoleiddiwr yn derbyn cyngor gan Ysgrifennydd Gwladol Defra, gyda gofyniad cyfreithiol i'w ystyried

Is-ddeddfwriaeth:

- Newidiadau i reolau newydd yn dilyn ymgynghoriad

## Atodiad IV: Dyletswyddau a Phwerau'r Rheoleiddiwr

### Rheoleiddio gweithwyr milfeddygol proffesiynol: dyletswyddau a phwerau

Dyletswydd:
Rhedeg cynllun trwydded i ymarfer
Pwerau cysylltiedig:
Darparu trwydded i ymarfer ar gyfer rheoleiddio proffesiynol
Pennu a chasglu ffioedd ar gyfer rheoleiddio proffesiynol

Dyletswydd:
Diogelu teitlau ar gyfer pob proffesiwn milfeddygol rheoleiddiedig
Pŵer cysylltiedig:
Erlyn/gosod sancsiynau ar bobl am gyflawni gweithredoedd milfeddygol heb drwydded briodol

Dyletswydd:
Penderfynu pa weithgareddau y gall pobl sydd â thrwydded i ymarfer eu cynnal
Pŵer cysylltiedig:
Pennu pa weithgareddau y gall pobl sydd â thrwydded i ymarfer eu cynnal

Dyletswydd:
Penderfynu pa weithgareddau y gellir eu cyflawni gan ba broffesiwn
Pŵer cysylltiedig:
Pennu pa weithgareddau y gellir eu cyflawni gan ba broffesiwn

Dyletswydd:
Penderfynu safonau ar gyfer gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys codau ymddygiad a chamau gweithredu i'w cwblhau gan wahanol broffesiynau

- Penderfynu ar lefel yr oruchwyliaeth sydd ei hangen gan filfeddygon
- Cynhyrchu rheolau a chanllawiau priodol ar ddyrannu, dirprwyo, cyfarwyddyd a goruchwylio
- Datblygu canllawiau ar sut y dylid neu y gellid cynnal y gweithgareddau
- Ymgynghori â phroffesiynau/y cyhoedd, lle bo'n briodol

Pŵer cysylltiedig:
Pennu codau ymddygiad proffesiynol ar gyfer gweithwyr proffesiynol trwyddedig

Dyletswydd:
Cadw rhestr o'r rhai sydd â thrwyddedau ar gyfer y gwahanol broffesiynau:

- Milfeddygon
- Nyrsys milfeddygol
- Gweithwyr milfeddygol proffesiynol perthynol, sy'n debygol o gynnwys:
    - Ffarieriaid

    - Ffisiotherapydd anifeiliaid/milfeddygol
    - Osteopath anifeiliaid/milfeddygol
    - Ceiropractydd anifeiliaid/milfeddygol
    - Ymddygiadwr anifeiliaid/milfeddygol
    - Technegydd deintyddol ceffylau
    - Triniwr carnau gwartheg
    - Triniwr troednoeth ceffylau
    - Arbenigwr ffrwythlondeb cŵn

Pŵer cysylltiedig:
Cael dogfennaeth briodol i sicrhau bod safonau'n cael eu bodloni

Dyletswydd:
Cadw rhestr o'r math o drwydded a ddelir:
- Trwydded gynhwysfawr
- Trwydded amodol (pob math)
- Trwydded dros dro ac amodol

Pŵer cysylltiedig:
Pennu safonau ar gyfer pa amodau a ganiateir o dan ba amgylchiadau

Dyletswydd:
Penderfynu ar safonau ar gyfer ennill a chynnal trwydded i ymarfer:
- Cymwysterau
    - Penderfynu ar y cymwysterau a fydd eu hangen i allu cael trwydded i ymarfer, ar gyfer pob un o'r proffesiynau
    - Pennu Cymwyseddau Diwrnod Un
    - Ymgynghori ag aelodau o'r proffesiynau sy'n cael eu dwyn o dan y system reoleiddio am y tro cyntaf
- Addasrwydd i ymarfer:
    - Cael proses/pwyllgor addasrwydd i ymarfer annibynnol, heb unrhyw orgyffwrdd o ran aelodaeth o bwyllgorau eraill/y Bwrdd
    - Diffinio amhariad cyfredol
    - Rhedeg proses ffitrwydd i ymarfer
        - Pennu prosesau, rheolau a chanllawiau i weithwyr proffesiynol wrth asesu amhariad cyfredol
    - Cymhwyso sancsiynau os yw addasrwydd i ymarfer wedi'i amharu ar hyn o bryd
- Ffioedd
- Gofynion Saesneg

Pwerau cysylltiedig:
Pennu safonau ar gyfer trwyddedu:
- Pennu safonau cymwysterau:
    - Pennu safonau cymwysterau a Chymwyseddau Diwrnod Un ar gyfer pob proffesiwn
- Addasrwydd i ymarfer

    - Gan gynnwys cael gwiriad DBS, lle bo'n briodol
- Ffioedd
- Gofynion Saesneg
- Gofynion yswiriant indemniad

Pennu safonau ar gyfer addasrwydd i ymarfer:

- Pennu safonau ar gyfer “amhariad cyfredol”
- Ymchwilio i'r cynllun addasrwydd i ymarfer
- Rhoi sancsiynau ar addasrwydd i ymarfer

Cael dogfennaeth briodol i benderfynu ar addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys adroddiadau iechyd

<u>Dyletswydd:</u>
Dileu trwydded i ymarfer os yw addasrwydd i ymarfer wedi'i amharu ar hyn o bryd neu os yw trosedd gwahardd awtomatig wedi'i chyflawni:

- Penderfynu ar y diffiniad o “amhariad cyfredol”
- Penderfynu ar droseddau gwahardd awtomatig

<u>Pŵer cysylltiedig:</u>
Dileu trwydded i ymarfer

<u>Dyletswydd:</u>
Caniatáu adfer trwydded i ymarfer ar ôl ei dileu, lle bo'n briodol
<u>Pŵer cysylltiedig:</u>
Adfer trwydded i ymarfer

<u>Dyletswydd:</u>
Apeliadau ar y prosesau addasrwydd i ymarfer

**Rheoleiddio busnesau milfeddygol a gofal iechyd anifeiliaid: dyletswyddau a phwerau**
<u>Dyletswydd:</u>
Rhedeg cynllun trwyddedu ar gyfer busnesau
<u>Pwerau cysylltiedig:</u>
Darparu trwyddedau ar gyfer busnesau milfeddygol/gofal iechyd anifeiliaid
Pennu a chasglu ffioedd ar gyfer rheoleiddio busnesau

<u>Dyletswydd:</u>
Penderfynu ar safonau ar gyfer busnesau, gan gynnwys codau ymarfer

- Iechyd dynol ac anifeiliaid a lles anifeiliaid
- Sicrhau bod staff wedi'u cymhwyso'n addas, wedi'u trwyddedu a'u hyfforddi'n ddigonol
- Llywodraethiant da, cadw cofnodion a data a chydymffurfiaeth â gofynion proffesiynol a chyfreithiol
- Rheoli a defnyddio meddyginiaethau'n gyfrifol, os yw'n berthnasol

- Amgylchedd gwaith ffisegol diogel a phriodol, gan gynnwys offer a chyfleusterau
- Sicrhau bod polisïau'n cyd-fynd â buddiannau defnyddwyr, yn ogystal â'u hanifeiliaid – gan gynnwys cael proses gwyno

Pwerau cysylltiedig:
Pennu pa weithgareddau y gall busnesau milfeddygol/gofal iechyd anifeiliaid eu cynnal
Gosod safonau ar gyfer gweithgareddau a gwblheir gan fusnesau milfeddygol/gofal iechyd anifeiliaid

Dyletswydd:
Cadw rhestr o fusnesau a lleoliadau trwyddedig

- Gan gynnwys manylion perchennog y drwydded a'r person cyfrifol a enwir

Pwerau cysylltiedig:
Cael y ddogfennaeth briodol
Cadw gwybodaeth am fusnesau, deiliad trwydded, a phobl gyfrifol a enwir

Dyletswydd:
Monitro cydymffurfiaeth â safonau, gan gynnwys:

- Archwiliadau:
  - Rhoi rhybudd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol
  - Darparu derbynneb am eitemau a gymerwyd
  - Cyhoeddi canlyniadau archwiliadau
- Ymchwiliadau

Pwerau cysylltiedig:
Archwiliadau:

- Pwerau mynediad
  - Gan gynnwys mynediad â gwarant, lle bo angen
- Codi tâl am gost archwiliadau
- Casglu gwybodaeth
  - Gan gynnwys cwynion, canlyniadau clinigol, hyfforddiant ac ati ar gyfer monitro cydymffurfiaeth
- Pwerau ychwanegol:
  - Chwilio ac atafaelu
  - Arsylwi
  - Mynnu esboniadau
  - Mynediad at wybodaeth/cofnodion
  - Adolygu cydymffurfiaeth
  - Dod â phobl/offer
  - Arolygu/profi
  - Archwilio/ymchwilio
  - Cyfarwyddo i beidio â tharfu ar safle
  - Cymryd mesuriadau
  - Tynnu lluniau/recordiadau
  - Cymryd samplau
  - Cymryd meddiant o sylweddau neu eitemau a geir a'u cadw

Ymchwiliadau:

- Pŵer mynediad
- Pwerau i atafaelu gwybodaeth briodol

Dyletswydd:
Rhoi sancsiynau/cymryd camau lle bo angen, os na chyflawnir safonau
Pwerau cysylltiedig:
Rhoi sancsiynau ar/cymryd camau gweithredu ar gyfer busnesau lle mae diffyg cydymffurfiaeth
Dileu trwydded fusnes

Dyletswydd:
Sicrhau bod y person cyfrifol a enwir yn cyflawni ei rôl yn briodol
Pŵer cysylltiedig:
Cadw gwybodaeth am bwy yw'r person cyfrifol a enwir

**Dyletswyddau a phwerau llywodraethiant**
Dyletswydd:
Rhedeg Bwrdd
Pwerau cysylltiedig:
Penodi aelodau i'r bwrdd, gyda chydraddoldeb lleyg
Adrodd am fanylion y prosesau penodi

Dyletswydd:
Cael pwyllgorau ychwanegol
Pŵer cysylltiedig:
Penodi aelodau i bwyllgorau

Dyletswydd:
Pennu Strategaeth Gorfforaethol
Pŵer cysylltiedig:
Pennu polisi ffioedd sy'n gysylltiedig â'u strategaeth gorfforaethol (ochr yn ochr ag ymgynghoriad)

Dyletswydd:
Gwahaniaeth clir rhwng rheoleiddio ac arweinyddiaeth broffesiynol
Pwerau cysylltiedig:
Cynnal gweithgareddau rheoleiddio (o dan VSA newydd)
Cynnal gweithgareddau arweinyddiaeth broffesiynol (o dan Siarter Frenhinol wedi'i diweddaru)

Dyletswydd:
Yn atebol i Senedd y DU a'r Llywodraethau Datganoledig

- Adroddiadau blynyddol

- EfraCom
- Rhoi manylion am sut mae'r polisi'n cael ei gymhwyso
    - Ystadegau ar y broses addasrwydd i ymarfer
    - Ystadegau ar bwerau mynediad
    - Ystadegau ar sancsiynau i fusnesau

Dyletswydd:
Goruchwyliaeth gan y Cyfrin Gyngor
- Cymeradwyo penodiadau'r Bwrdd

Dyletswydd:
Yn atebol i gorff goruchwylio, a fydd yn:
- Adolygu perfformiad y rheoleiddiwr
- Archwilio'r defnydd o bwerau (gan gynnwys dileu trwydded ymarfer gweithiwr proffesiynol, pwerau mynediad, ymweliadau gorfodi, a dileu trwydded busnes)
- Adolygu sut mae rheolau wedi cael eu gwneud a/neu eu diwygio
- Adolygu sut mae'r rheoleiddiwr wedi cyflawni a blaenoriaethu ei amcanion
- Adolygu sut mae'r rheoleiddiwr wedi cynnal ymgynghoriadau a sut mae'r canlyniadau hyn wedi dylanwadu ar benderfyniadau terfynol
- Adolygu'r broses benodi i sicrhau ei bod yn deg ac yn dryloyw
- Adolygu'r broses a'r penderfyniadau pennu ffioedd, er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder
- Adolygu'r prosesau a'r canlyniadau addasrwydd i ymarfer
- Archwilio

Dyletswydd:
Rhoi sylw i gyngor gan Ysgrifennydd Gwladol Defra
Pŵer cysylltiedig:
Gwrthod y cyngor, mewn amgylchiadau eithriadol

Dyletswydd:
Mynychu cyfarfodydd gwirio bob 6 mis gydag Ysgrifennydd Gwladol Defra, neu weinidog dirprwyedig priodol